Canllawiau

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynnig Gofal Plant Cymru

## Canllawiau i Awdurdodau Lleol

Gorffennaf 2022

OGL © Hawlfraint y Goron 2022, Llywodraeth Cymru, WG45505, ISBN digidol 978-1-80364-445-5
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

ADRAN 1 – GAIR AM Y CANLLAWIAU HYN ..... 5
GALL RHIENI FANTEISIO AR Y CYNNIG OS YDYNT YN BODLONI'R MEINI PRAWF ENILLION, OS YDYNT AR HYN O BRYD YN GWEITHIO AC YN CAEL HYFFORDDIANT AR YR UN PRYD NEU'N GWEITHIO CYN IDDYNT DDECHRAU AR GWRS YM MIS MEDI. ..... 5
ADRAN 2 – BETH YW'R CYNNIG GOFAL PLANT? ..... 6
Beth yw ystyr 'gofal plant'? ..... 6
Beth yw ystyr 'addysg gynnar'? ..... 6
Beth yw ystyr '30 awr'? ..... 6
Rhieni nad ydynt yn manteisio ar ddarpariaeth addysg gynnar ..... 7
Darparu addysg gynnar mewn Awdurdod Lleol gwahanol i ble mae'r plentyn yn byw ..... 8
ADRAN 3 – PA BRYD Y GALL RHIENI DDEFNYDDIO EU HORIAU GOFAL PLANT O DAN Y CYNNIG? ..... 9
Darpariaeth Adeg Gwyliau ..... 9
Wythnosau nad ydynt yn cael eu hariannu o dan y Cynnig: ..... 11
ADRAN 4 – PWY SY'N GYMWYS I GAEL Y CYNNIG GOFAL PLANT? ..... 13
Diffiniad o blentyn cymwys ..... 13
Diffiniad o riant cymwys ..... 14
Diffiniad o riant sy'n gweithio ..... 15
Diffiniad o riant mewn addysg neu hyfforddiant ..... 16
Rhieni a Gofalwyr ..... 16
ADRAN 5 – BETH SY'N DIGWYDD PAN FYDD RHIANT YN PEIDIO Â BOD YN GYMWYS MWYACH? ..... 21
Cyfnodau Esemptio Dros Dro ..... 21
ADRAN 6 – BETH AM BLANT Y MAE ANGEN CYMORTH YCHWANEGOL ARNYNT? ..... 23
Grant Cymorth Ychwanegol ..... 23
ADRAN 7 – PA DDARPARWYR A ALL GYNNIG DARPARIAETH O DAN Y CYNNIG? ..... 24
Mathau o ddarparwyr ..... 24
Darpariaeth Drawsffiniol ..... 25
ADRAN 8 – BETH YW'R GYFRADD A DELIR I DDARPARWYR SY'N DARPARU'R CYNNIG? ..... 26
Cyfradd tâl fesul awr ar gyfer gofal plant ..... 26
Codi ffioedd ychwanegol: ..... 26
Codi tâl am elfennau ychwanegol - bwyd: ..... 26
Codi tâl am elfennau ychwanegol - trafnidiaeth: ..... 27

CODI TÂL AM ELFENNAU YCHWANEGOL - CYFFREDINOL: ..... 28
ACHOSION O BEIDIO Â CHYDYMFFURFIO Â CHANLLAWIAU CODI TÂL ..... 28
CYLLID AR GYFER DARPARIAETH ADDYSG GYNNAR ..... 29
HAWLIO AM ORIAU A DREFNWYD OND NA DDEFNYDDIWYD ..... 29

**ADRAN 9 – ROLAU A CHYFRIFOLDEBAU AWDURDODAU LLEOL ..... 31**

Y MODEL GWEITHREDU ..... 31
ROLAU A CHYFRIFOLDEBAU - AWDURDODAU GWEITHREDU ..... 31
ROLAU A CHYFRIFOLDEBAU - AWDURDODAU YMGYSYLLTU ..... 32
CYTUNDEB AR GYFER TREFNIADAU PARTNERIAETH ..... 33
CYFATHREBU ..... 33

**ADRAN 10 – CYLLID AR GYFER Y CYNNIG GOFAL PLANT ..... 35**

Y GRANT GWEINYDDU'R CYNNIG GOFAL PLANT ..... 35
Y GRANT GOFAL PLANT ..... 35
Y GRANT CYMORTH YCHWANEGOL ..... 35

**ADRAN 11 – DARPARU'R CYNNIG – PROSESAU RHIENI ..... 36**

PROSESAU RHIENI ..... 36
GWIRIAD CYMHWYSTRA CYN YMGEISIO ..... 36
Y BROSES YMGEISIO ..... 36
GWIRIO CYMHWYSTRA ..... 38
HYSBYSU RHIENI ..... 39
AILWIRIO CYMHWYSTRA ..... 40
ADOLYGIADAU AC APELIADAU ..... 41
SYMUD RHWNG ARDALOEDD AWDURDODAU LLEOL ..... 42

**ADRAN 12 – DARPARU'R CYNNIG – PROSESAU DARPARWYR ..... 43**

COFRESTRU DARPARWYR ..... 43
CONTRACT Y DARPARWR ..... 43
Y BROSES AR GYFER TALU DARPARWYR ..... 44
Y BROSES ADHAWLIO ..... 45
COD YMARFER AR GYFLOGAETH FOESEGOL MEWN CADWYNI CYFLENWI ..... 46

**ADRAN 13 - DIWYDRWYDD DYLADWY, ARCHWILIO A THRIN DATA ..... 47**

DIWYDRWYDD DYLADWY ..... 47
GOFYNION ARCHWILIO ..... 47
CASGLU DATA ..... 47
RHEOLI GWYBODAETH ..... 48

**ADRAN 14 – MONITRO A GWERTHUSO ..... 50**

MONITRO ..... 50
GWERTHUSO ..... 51

**ADRAN 15 – TREFNIADAU AR GYFER DARPARU'R CYNNIG O DAN AMGYLCHIADAU EITHRIADOL ..... 53**

TYWYDD GARW ..... 53

PANDEMIG NEU ARGYFWNG IECHYD TEBYG ........ 54

## Adran 1 – Gair am y canllawiau hyn

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu 30 o oriau o addysg gynnar a gofal plant a ariennir gan y llywodraeth ar gyfer plant 3 a 4 oed i rieni sy’n gymwys, a hynny am hyd at 48 o wythnosau y flwyddyn. Prif nodau polisi elfennau addysg a gofal plant y Cynnig yw:

- galluogi mwy o rieni, yn enwedig mamau, i ddychwelyd i’r gwaith
- cefnogi rhieni sy’n ceisio gwella eu rhagolygon cyflogaeth drwy ennill cymwysterau, ailhyfforddi neu newid llwybr gyrfa
- cynyddu incwm gwario pobl sy’n gweithio, a helpu i ddileu tlodi ar gyfer pobl mewn swyddi sy’n talu cyflogau isel
- helpu plant i ddatblygu ac i fod yn barod ar gyfer yr ysgol

Canllawiau anstatudol gan Lywodraeth Cymru yw'r rhain i helpu Awdurdodau Lleol i weithredu Cynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru ("y Cynnig"). Caiff y canllawiau eu hadolygu fel y bo angen i adlewyrchu unrhyw newidiadau i bolisïau neu drefniadau gweithredu.

Mae'r canllawiau hyn wedi'u diweddaru i adlewyrchu’r ffaith bod y Cynnig Gofal Plant wedi’i estyn i rieni cymwys mewn addysg neu hyfforddiant. Mae'n bwysig nodi na all rhiant mewn addysg neu hyfforddiant fod yn gymwys ar gyfer y Cynnig tan 1 Medi 2022 ac felly ni fyddent yn gallu manteisio ar y gofal plant a ariennir sydd ar gael o dan y Cynnig cyn y dyddiad hwn, er y gallent gyflwyno eu cais ymlaen llaw cyn y dyddiad hwn.

Gall rhieni fanteisio ar y Cynnig os ydynt yn bodloni’r meini prawf enillion, os ydynt ar hyn o bryd yn gweithio ac yn cael hyfforddiant ar yr un pryd neu’n gweithio cyn iddynt ddechrau ar gwrs ym mis Medi.

## Adran 2 – Beth yw'r Cynnig Gofal Plant?

Mae'r adran a ganlyn yn rhoi crynodeb o bolisi y Cynnig Gofal Plant.

**Beth yw ystyr 'gofal plant'?**

1. At ddibenion y Cynnig, mae gofal plant yn cyfeirio at ofal plant sy'n cael ei reoleiddio a'i arolygu gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ac felly mae'n ddarostyngedig i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer gofal plant cofrestredig. Os yw'r gofal plant wedi'i leoli yn Lloegr yna byddai angen i'r darparwr gofrestru gydag Ofsted.

**Beth yw ystyr 'addysg gynnar'?**

2. Addysg gynnar, y cyfeirir ati hefyd fel darpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen, yw'r term a ddefnyddir i ddisgrifio'r amser y mae plentyn yn ei dreulio yn y Cyfnod Sylfaen pan fyddant yn 3 a 4 oed, cyn cael addysg orfodol.

3. Mae gan bob plentyn hawl i gael addysg gynnar o'r tymor ar ôl eu pen blwydd yn 3 oed ac mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol yng Nghymru ddarparu o leiaf 10 awr o addysg gynnar a ariennir yr wythnos yn ystod y tymor i blant 3 a 4 oed.

4. Gellir darparu addysg gynnar mewn ysgol gynradd (meithrin) a gynhelir neu leoliad a ariennir nas cynhelir, fel meithrinfa, cylch chwarae a ariennir neu warchodwr plant.

5. Pan gyflwynir y Cwricwlwm newydd i Gymru o fis Medi 2022 bydd yr holl gamau a'r cyfnodau ym maes addysg yn cael eu dileu. Fodd bynnag, er na fydd cyfnod dysgu o'r enw y Cyfnod Sylfaen mwyach, bydd egwyddorion ac addysgeg y Cyfnod Sylfaen yn rhan o'r Cwricwlwm i Gymru a bydd yn rhoi cymorth priodol i ddysgwyr iau.

**Beth yw ystyr '30 awr'?**

6. Yn ystod y tymor ysgol (39 o wythnosau y flwyddyn) mae'r Cynnig yn darparu hyd at 30 awr o ddarpariaeth wedi'i hariannu sy'n cynnwys oriau addysg gynnar ac oriau gofal plant. Y tu allan i'r tymor ysgol, am 9 'wythnos wyliau', mae'r Cynnig yn darparu hyd at 30 awr o ofal plant yn unig.

7. Yn ystod y tymor ysgol, bydd y Cynnig yn cynnwys o leiaf 10 awr o addysg gynnar yr wythnos. Uwchlaw hyn, bydd yr union raniad rhwng oriau addysg gynnar ac oriau gofal plant yn dibynnu ar nifer yr oriau o addysg gynnar a gynigir gan yr Awdurdod Lleol (neu'r ysgol unigol).

8. Yn ystod y tymor ysgol, ni all unrhyw blentyn dderbyn mwy na chyfanswm cyfunol o 30 awr o ofal plant a darpariaeth addysg gynnar a ariennir. Er enghraifft, os yw Awdurdod Lleol

9. (neu ysgol) yn cynnig 15 awr o ddarpariaeth addysg gynnar yr wythnos, yna gellir darparu uchafswm o 15 awr o ofal plant a ariennir ar ben hyn.

10. Os bydd lleoliad nas cynhelir yn dewis cynnig oriau o ddarpariaeth addysg gynnar sy'n ychwanegol at y nifer a gynigir ac a ariennir gan yr Awdurdod Lleol, bydd angen i'r Awdurdod Lleol sicrhau nad yw cyfanswm yr oriau yn fwy na 30 awr ar gyfer unrhyw blentyn unigol.

**Rhieni nad ydynt yn manteisio ar ddarpariaeth addysg gynnar**

11. Nid oes rhaid i rieni cymwys fanteisio ar ddarpariaeth addysg gynnar er mwyn gallu manteisio ar elfen gofal plant y Cynnig.

12. Pan fydd rhiant yn dewis peidio â manteisio ar ddarpariaeth addysg gynnar i'w plentyn, yn ystod y tymor ysgol, bydd uchafswm yr oriau gofal plant a ariennir y gallant eu cael yr un fath â phe bai eu plentyn yn cael addysg gynnar. Ni chaniateir cyfnewid oriau darpariaeth addysg gynnar am oriau gofal plant. Er enghraifft, mewn Awdurdod Lleol sy'n cynnig 20 awr o ddarpariaeth addysg gynnar, byddai'r rhieni'n gallu manteisio ar uchafswm o 10 awr o ofal plant a ariennir.

13. Y tu allan i'r tymor ysgol, am 9 'wythnos wyliau', byddai'r rhiant yn gallu cael hyd at 30 awr o ofal plant a ariennir yr wythnos.

14. Yn y rhan fwyaf o Awdurdodau Lleol, bydd plentyn yn cael cynnig lle mewn addysg amser llawn (ysgol) o'r mis Medi ar ôl iddynt droi'n 4 oed. Ar ddechrau'r tymor ysgol pan fydd plentyn yn gymwys i gael addysg amser llawn, ni fydd y plentyn yn gymwys i fanteisio ar y Cynnig mwyach.

15. Mewn Awdurdodau Lleol lle bydd plant yn gymwys i gael lle mewn addysg amser llawn yn gynharach na'r mis Medi ar ôl iddynt droi'n 4 oed, bydd y plant hyn yn dal i allu manteisio ar ddarpariaeth adeg gwyliau y Cynnig tan y mis Medi ar ôl iddynt droi'n 4 oed.

16. Ni fydd rhieni'n gallu gwrthod lle mewn addysg gynnar amser llawn ar yr adeg y caiff ei gynnig ar draws eu Hawdurdod Lleol er mwyn parhau i fanteisio ar y Cynnig yn ystod y tymor (gweler Adran 4 – Cymhwystra ar gyfer y Cynnig Gofal Plant am ragor o fanylion).

17. Os bydd ysgol yn cychwyn tymor plant ar adegau gwahanol, ni fydd rhieni'n gymwys i fanteisio ar y Cynnig yn ystod y diwrnod(au)/wythnos(au) pan nad yw eu plentyn yn yr ysgol.

**Darparu addysg gynnar mewn Awdurdod Lleol gwahanol i ble mae'r plentyn yn byw**

18. Pan fo plentyn yn arfer ei hawl i addysg gynnar mewn ardal Awdurdod Lleol wahanol i’r un y mae’n byw ynddi, mae nifer yr oriau o ofal plant y byddai ganddo hawl iddynt yn cael eu cyfrifo yn seiliedig ar nifer yr oriau addysg gynnar sydd ar gael iddo yn yr Awdurdod Lleol lle mae’n cael y ddarpariaeth honno. Er enghraifft, pe byddai'r Awdurdod Lleol lle mae'r plentyn yn mynychu’r ddarpariaeth addysg gynnar yn darparu 10 awr o addysg gynnar, mae gan y plentyn yr hawl i 20 awr o ofal plant.

## Adran 3 – Pa bryd y gall rhieni ddefnyddio eu horiau gofal plant o dan y Cynnig?

Mae'r adran a ganlyn yn nodi pa bryd y gall rhiant ddefnyddio'r oriau gofal plant a ariennir drwy'r Cynnig.

**Oriau gofal plant o fewn wythnos**

19. Dylai elfen addysg gynnar y Cynnig gael ei darparu yn unol â dull gweithredu'r Awdurdod Lleol.

20. Gellir manteisio ar elfen gofal plant y Cynnig yn ystod unrhyw amser, ddydd neu nos, gan gynnwys ar benwythnosau. Ar hyn o bryd nid oes terfyn ar nifer cyffredinol yr oriau gofal plant y gellir eu hariannu drwy'r Cynnig fesul diwrnod, ond gall darparwyr unigol ddewis nodi pa oriau y gellir eu hariannu drwy'r Cynnig yn ystod y dydd.

21. Bydd elfen gofal plant y Cynnig ar gael yn ystod Gwyliau Banc. Os yw lleoliad yn codi tâl am wyliau banc a’i fod ar gau ac y byddai rhiant fel arfer yn defnyddio’r lleoliad ar y diwrnod hwnnw, dylid trin yr oriau fel pe bai'r plentyn yn mynd i'r lleoliad a thalu amdanynt drwy’r Cynnig. Os nad yw lleoliad yn codi tâl am ddiwrnodau pan fydd y lleoliad ar gau, ni ddylai'r diwrnodau hyn gael eu hariannu gan y Cynnig.

22. Pe byddai plentyn fel arfer wedi mynychu ar ddiwrnod pan fydd y lleoliad ar gau a bod y rhieni yn talu am oriau gofal plant ychwanegol uwchlaw eu dyraniad o dan y Cynnig, yna gall y rhiant barhau i hawlio uchafswm eu hawl o dan y Cynnig ar gyfer gweddill yr wythnos honno, hy caiff oriau’r Cynnig eu defnyddio yn gyntaf cyn i'r rhiant orfod talu). Mae hyn yn golygu na ddylai rhiant golli'r oriau o'i hawl wythnosol o dan y Cynnig oherwydd bod lleoliad ar gau.

23. Cyfrifoldeb y rhiant yw dod o hyd i ddarparwr gofal plant sy'n gweithredu ar yr adeg y mae angen gofal plant arno.

24. Yn ystod y tymor, nid yw rhieni’n gallu ‘bancio’ oriau gofal plant, hy cario unrhyw oriau heb eu defnyddio drosodd o un wythnos i’r llall. O ganlyniad ni fydd nifer yr oriau a ariennir o dan y Cynnig yn fwy na 30 mewn unrhyw wythnos. Caiff unrhyw oriau o dan y Cynnig nas defnyddir mewn wythnos eu colli felly. Fodd bynnag, gall rhieni ddewis talu am oriau ychwanegol, uwchlaw y 30 awr, ar eu traul eu hunain.

**Darpariaeth Adeg Gwyliau**

25. Mae’r Cynnig Gofal Plant yn darparu hyd at 30 awr o addysg gynnar a gofal plant a ariennir gan y llywodraeth i blant 3 a 4 oed i rieni sy’n gymwys, a hynny am hyd at 48 wythnos y flwyddyn.

26. Yn ystod y tymor ysgol (39 wythnos y flwyddyn) mae'r Cynnig yn darparu hyd at 30 awr o ddarpariaeth wedi'i hariannu sy'n cynnwys oriau addysg gynnar ac oriau gofal plant. Gall union nifer yr wythnosau ‘yn ystod y tymor’ bob blwyddyn amrywio rhwng yr Awdurdodau Lleol, ond at ddiben y polisi hwn, bydd y tymor ysgol yn cael ei drin fel 39 wythnos.

27. Y tu allan i’r tymor ysgol, mae'r 9 wythnos arall o'r Cynnig 48 wythnos yn cael eu hystyried yn 'wythnosau gwyliau’. Yn ystod wythnosau gwyliau, gall rhieni fanteisio ar 30 awr o ofal plant a ariennir bob wythnos. Bydd hyn yn cael ei ddarparu mewn lleoliadau gofal plant nas cynhelir sydd wedi'u cofrestru yn unig, fel meithrinfeydd dydd preifat, gwarchodwyr plant, gofal plant y tu allan i oriau ysgol a gofal sesiynol.

28. Ar ddechrau pob tymor y bydd rhiant/plentyn yn gymwys i fanteisio ar y Cynnig, bydd yn cael tair wythnos o ddarpariaeth gwyliau, hyd at gyfanswm o 9 wythnos y flwyddyn.

29. Gellir cael gafael ar oriau gofal plant a ariennir ar unrhyw adeg yn ystod wythnosau sy’n wyliau, nos neu ddydd, gan gynnwys ar benwythnosau. Fodd bynnag, ni ddylid ariannu mwy na 30 awr mewn unrhyw wythnos. Os yw rhiant yn defnyddio llai na 30 awr mewn wythnos, ni all gronni'r oriau hyn i'w defnyddio mewn wythnos arall (ee os mai dim ond gwerth 25 awr o gyllid y Cynnig y mae rhiant yn ei ddefnyddio mewn wythnos, yna ni allant gael 35 awr yr wythnos ganlynol).

30. Pan fo plentyn yn cael cynnig lle mewn addysg amser llawn cyn y mis Medi yn dilyn ei bedwerydd pen blwydd, mae’r plentyn hwnnw’n dal yn gymwys i gael 30 awr yr wythnos o ddarpariaeth gofal plant adeg gwyliau, tan y mis Medi ar ôl ei bedwerydd pen blwydd, hy dechrau’r tymor ysgol fel y’i pennir gan yr Awdurdod Lleol.

31. O dan Gynnig Cymru, ni fydd hawl i blant sy'n manteisio ar ddarpariaeth addysg gynnar yn Lloegr ddefnyddio eu horiau addysg "estynedig" (mae modd estyn addysg gynnar yn Lloegr) yn ogystal â'u 30 awr o ddarpariaeth adeg gwyliau.

*Darpariaeth adeg gwyliau:*

32. Bydd modd cario darpariaeth adeg gwyliau drosodd o un tymor i’r nesaf ac o un flwyddyn academaidd i’r nesaf, cyhyd â bod y rhiant a’r plentyn yn parhau i fod yn gymwys ar gyfer y Cynnig.

*Nodi pa wythnosau sy'n wythnosau gwyliau:*

33. Dylai rhieni fod â’r hawl i benderfynu ar gyfer pa wythnosau y byddant yn ddefnyddio’r adeg gwyliau a nhw sy’n gyfrifol am ddod o hyd i ddarparwr gofal plant a all gynnig y ddarpariaeth hon.

34. Ni ddylai darparwyr fod yn dynodi i rieni pa rai o’r 13 wythnos sy’n wythnosau gwyliau dynodedig o dan y Cynnig ychwaith. Bwriedir i hyn roi hyblygrwydd i rieni o ran sut y maent yn defnyddio eu darpariaeth adeg gwyliau 9 wythnos.

35. Fodd bynnag, bydd gofyn i'r Awdurdodau Lleol gadw cofnod o'r ddarpariaeth adeg gwyliau sy'n cael ei defnyddio gan rieni, gan gymryd i ystyriaeth unrhyw ddarpariaeth heb ei defnyddio sy'n cael ei chario drosodd.

36. Rhaid defnyddio'r ddarpariaeth adeg gwyliau fesul wythnos. Yn ystod wythnosau lle bydd o leiaf 3 o’r 5 diwrnod wedi’u dynodi’n wyliau ysgol gan yr Awdurdod Lleol, yna gellir ystyried bod yr wythnos gyfan yn wythnos wyliau.

37. Caiff diwrnodau hyfforddiant mewn swydd eu hystyried yn ddyddiau yn ystod y tymor o dan y Cynnig, felly nid ellid eu trin fel darpariaeth adeg gwyliau.

38. Pan fydd wythnos wyliau yn cynnwys dechrau neu ddiwedd tymor ysgol newydd ac felly'n cynnwys rhai diwrnodau o ddarpariaeth addysg gynnar, ni ddylai'r Awdurdod Lleol dalu am fwy na chyfanswm o 30 awr o ofal plant yn ystod yr wythnos honno. Felly, dylid didynnu unrhyw oriau gofal plant a ddefnyddir gan y rhiant yn ystod y dyddiau pan fo'r plentyn hefyd yn cael addysg gynnar o'r lwfans cyffredinol o 30 awr o ofal plant ar gyfer yr wythnos honno. Gall y rhiant ddefnyddio beth bynnag sy’n weddill o’r lwfans gwyliau gofal plant 30 awr ar ddiwrnodau eraill yr wythnos. Yn yr achosion hyn, dylai Awdurdodau Lleol egluro i’r rhiant y bydd hyn yn cyfrif fel wythnos wyliau pe byddent yn penderfynu gwneud hyn ac y bydd yr Awdurdod Lleol yn ystyried bod y rhiant wedi defnyddio un o’i wythnosau gwyliau. Mae’n bosibl y byddai’n well i’r rhiant beidio â defnyddio ei hawl gwyliau yn ystod wythnos lle ceir un neu ddau ddiwrnod ysgol.

39. Os bydd y tymor pan fydd plentyn yn dod yn gymwys i gael y lle mewn addysg amser llawn yn dechrau ar ddydd Iau neu ddydd Gwener (a bod o leiaf 3 o'r 5 diwrnod wedi'u dynodi'n wyliau ysgol), gellir ystyried yr wythnos gyfan yn wythnos wyliau at ddibenion darpariaeth gwyliau. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cynnwys diwrnodau hyfforddiant mewn swydd na diwrnodau pan na chaniateir i'r plentyn ddod i'r ysgol o ganlyniad i ddechrau graddol.

40. Os yw plentyn yn mynychu ysgol breifat gydag wythnosau tymor gwahanol i ysgolion eraill yn yr un Awdurdod Lleol, gall rhieni ddefnyddio eu darpariaeth gwyliau ar gyfer yr wythnosau gwyliau amgen.

**Wythnosau nad ydynt yn cael eu hariannu o dan y Cynnig:**

41. O dan y Cynnig, mae pedair wythnos nad ydynt yn cael eu hariannu mewn cyfnod o 12 mis, lle bydd angen i rieni ariannu unrhyw ddarpariaeth gofal plant eu hunain. Mae'n rhesymol disgwyl i rieni dalu'r pedair wythnos nad ydynt yn cael eu hariannu o dan y Cynnig, fel bod darparwyr yn cael eu had-dalu'n llawn am eu staff drwy

gydol y flwyddyn (gweler Atodiad 1 am enghreifftiau o sut mae hyn yn gweithio'n ymarferol).

## Adran 4 – Pwy sy’n gymwys i gael y Cynnig Gofal Plant?

Mae'r adran a ganlyn yn nodi pwy sy'n gymwys i ddefnyddio'r Cynnig Gofal Plant o ran plentyn a rhiant.

**Diffiniad o blentyn cymwys**

42. Mae'r ddarpariaeth addysg gynnar sy'n rhan o'r Cynnig yn ddarpariaeth gyffredinol ac felly mae ar gael i bob plentyn.

43. Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer elfen gofal plant y Cynnig, rhaid i blentyn fod yn 3 neu'n 4 oed, rhaid iddo beidio â bod yn gymwys i gael lle mewn addysg amser llawn eto a rhaid i'w riant/rieni hefyd fodloni'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer rhieni fel y nodir isod.

44. Bydd plant cymwys yn gallu manteisio ar elfen gofal plant y Cynnig o'r un adeg ag y gallant fanteisio ar elfen addysg gynnar y Cynnig. Fel arfer mae hyn yn dechrau o’r tymor ar ôl eu trydydd pen blwydd, nes eu bod yn gymwys am le mewn addysg amser llawn (ysgol) – fel arfer y mis Medi ar ôl eu pedwerydd pen blwydd.

45. Yr Awdurdod Lleol fydd yn penderfynu ar yr union ddyddiad y bydd plentyn yn gymwys i gael y Cynnig. Pan fo Awdurdod Lleol yn ei gwneud yn ofynnol i blentyn fod wedi troi'n 3 oed erbyn pwynt penodol yn y flwyddyn er mwyn dechrau manteisio ar ddarpariaeth addysg gynnar, gellir cymhwyso'r un rheol i blant sy'n manteisio ar elfen gofal plant y Cynnig. Pan fydd y rheol hon yn cael ei chymhwyso, bydd plentyn yn dod yn gymwys i fanteisio ar elfen addysg gynnar ac elfen gofal plant y Cynnig ar yr un pryd. Er enghraifft, gall tymor y gwanwyn ddechrau ar 4 Ionawr, ond gall yr Awdurdod Lleol ei gwneud yn ofynnol i blentyn fod wedi troi'n 3 erbyn 31 Rhagfyr er mwyn gallu manteisio ar y Cynnig yn ystod tymor y gwanwyn.

46. Pan fydd plentyn wedi'i dderbyn i gael gofal plant wedi'i ariannu o dan y Cynnig, bydd yr union ddyddiad y bydd y ddarpariaeth a ariennir yn dechrau yn dibynnu ar ddyddiad dechrau'r tymor ysgol o fewn yr Awdurdod Lleol. Caiff diwrnod cyntaf y tymor ei bennu gan yr Awdurdod Lleol ac felly gall yr union ddyddiad pan fo plentyn yn gallu manteisio ar y Cynnig amrywio rhwng awdurdodau. Dylai’r dyddiad y bydd y ddarpariaeth a ariennir yn dechrau gael ei bennu gan yr Awdurdod Lleol pan fydd yn hysbysu rhiant fod ei gais wedi bod yn llwyddiannus.

47. Dylai’r Awdurdodau Lleol gyhoeddi eu dyddiadau tymor ymhell ymlaen llaw i rieni ac i Awdurdodau Lleol cyfagos.

*Dechrau addysg amser llawn:*

48. Mae plentyn yn dod yn anghymwys ar gyfer y Cynnig unwaith y bydd yn gymwys i

gael lle mewn addysg amser llawn (ysgol). Y mis Medi ar ôl eu pen blwydd yn bedair oed fydd hyn fel arfer.

49. Pan fo plentyn yn cael cynnig lle mewn addysg amser llawn yn gynharach na'r mis Medi ar ôl iddo droi'n 4 oed, ni fydd yn gymwys mwyach i gael elfen gofal plant y Cynnig yn ystod y tymor. Fodd bynnag, gall y rhiant barhau i gael hyd at 30 awr o ofal plant a ariennir y tu allan i'r tymor ysgol, am hyd at 9 'wythnos wyliau'.

50. Bydd rhieni sy'n manteisio ar y Cynnig mewn lleoliad sydd mewn Awdurdod Lleol gwahanol i'r un lle maent yn byw yn mynd yn anghymwys i gael y Cynnig yn ôl y dyddiadau a bennwyd gan yr Awdurdod Lleol lle maent yn byw ynghylch derbyn plant i ddarpariaeth ysgol amser llawn.

**Enghraifft:**
Mae rhiant yn byw yn Awdurdod A, ond yn defnyddio darpariaeth y Cynnig Gofal Plant yn Awdurdod B. Byddant yn cael cynnig lle mewn addysg amser llawn ar gyfer eu plentyn gan Awdurdod A o ddechrau'r *tymor y mae eu plentyn yn troi'n 4 oed ynddo*. Ond, yn Awdurdod B mae plant yn gymwys i gael lle mewn addysg amser llawn yn y tymor *ar ôl* y tymor y maent yn troi'n 4 oed ynddo. Yn yr achos hwnnw, nid yw rhiant yn gymwys i gael elfen gofal plant y Cynnig yn ystod y tymor ysgol ar yr adeg y byddant yn cael cynnig lle mewn addysg amser llawn gan Awdurdod A.

## Diffiniad o riant cymwys

51. I fod yn gymwys ar gyfer y Cynnig, rhaid i riant fodloni'r canlynol:
- bod â phlentyn cymwys o fewn yr ystod oedran
- bodloni'r diffiniad o riant sy'n gweithio neu riant mewn addysg neu hyfforddiant
- byw yng Nghymru

52. Ystyr rhiant yw person sydd fel arfer yn byw gyda'r plentyn ac sy'n gyfrifol amdano, neu bartner person o'r fath. Yn y canllawiau hyn mae'r term rhiant yn cyfeirio at rieni, gwarcheidwaid cyfreithiol, llys-rieni a phartneriaid cyd-fyw hirdymor ar yr un aelwyd â'r plentyn. Ni fydd oedolion eraill sy'n byw yn y cartref (fel lojers, aelodau o'r teulu estynedig, brodyr a chwiorydd ac ati) yn cael eu hystyried yn rhieni o dan y Cynnig, oni bai bod ganddynt gyfrifoldeb rhiant dros y plentyn hefyd.

53. Mewn aelwyd dau riant, bydd angen i'r ddau riant fodloni'r diffiniad o naill ai rhiant sy'n gweithio neu riant mewn addysg neu hyfforddiant i fod yn gymwys ar gyfer y Cynnig. Mewn aelwyd un rhiant, bydd angen i'r unig riant fodloni'r diffiniad o naill ai rhiant sy'n gweithio neu riant mewn addysg neu hyfforddiant er mwyn bod yn gymwys ar gyfer y Cynnig.

**Diffiniad o riant sy’n gweithio**

54. Gall rhiant sy'n gweithio fod yn rhiant sydd naill ai'n gyflogedig neu'n hunangyflogedig. Mae hyn yn cynnwys y rhai sydd ar brentisiaethau, contractau dim oriau a hefyd y rhai sydd newydd ddod yn hunangyflogedig.

55. I fod yn gymwys, rhaid i'r rhiant fodloni'r meini prawf enillion gofynnol dros gyfnod o 3 mis. Ystyr meini prawf enillion gofynnol yw bod rhaid iddynt ennill, ar gyfartaledd, yr hyn sy’n gyfwerth ag o leiaf 16 awr yr wythnos ar yr isafswm cyflog perthnasol sy'n gymwys iddynt. Ystyr isafswm cyflog yw naill ai'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol, y Cyflog Byw Cenedlaethol neu'r Isafswm Cyflog Prentisiaeth ar y gyfradd sy'n berthnasol i'w hoedran ("yr isafswm cyflog perthnasol” o hyn ymlaen).

56. Wrth asesu a yw rhiant yn bodloni meini prawf isafswm incwm, mae'n bwysig ystyried felly a yw'r rhiant neu'r rhieni yn derbyn incwm o'u gwaith. Mae pob incwm o'r gwaith yn cyfrif tuag at yr isafswm incwm.

57. Dylai rhieni cyflogedig ddangos tystiolaeth eu bod yn ennill yr isafswm sy'n ofynnol drwy eu cyflogau dros gyfnod o dri mis. Os bydd rhiant wedi cael swydd newydd neu os yw wedi newid cyflogwyr yn ddiweddar ac na all darparu tystiolaeth o'i enillion dros gyfnod o 3 mis, bydd llythyr gan y cyflogwr yn cadarnhau'r gyflogaeth, y dyddiad dechrau a'r enillion yn ddigonol (*gweler adran 11 i gael rhagor o fanylion ynghylch gwirio cymhwystra*).

58. Dylai rhiant hunangyflogedig ddangos ei fod yn ennill yr isafswm sy'n ofynnol drwy ei ffurflen dreth hunanasesu neu drwy dystiolaeth o incwm tebygol dros y flwyddyn dreth nesaf. Byddai rhiant sydd newydd ddod yn hunangyflogedig wedi'i eithrio o'r meini prawf enillion am y 12 mis cyntaf ar ôl sefydlu’r busnes, ond dylid gofyn iddo ddarparu tystiolaeth bod y busnes hwnnw wedi’i sefydlu (*gweler adran 11 i gael rhagor o fanylion ynghylch gwirio cymhwystra*).

59. Wrth gymhwyso’r meini prawf isafswm incwm nid yw’r canlynol yn cyfrif fel incwm o’r gwaith gan nad oes unrhyw gysylltiad uniongyrchol na chlir rhwng yr oriau a gaiff eu gweithio a’r incwm a geir (neu os oes cysylltiad, nid yw’n hawdd darparu tystiolaeth ohono):
   - Incwm difidend ac incwm arall o fuddsoddiadau
   - Benthyciadau cyfarwyddwyr.

60. Ar yr amod bod y rhiant yn byw yng Nghymru, bydd incwm a enillir gan fusnes sydd wedi'i gofrestru y tu allan i'r DU yn cyfrif tuag at y meini prawf isafswm enillion.

61. Ni fydd rhiant sy'n gweithio y mae ei incwm gros yn y flwyddyn dreth gyfredol yn fwy na £100,000 yn gymwys ar gyfer y Cynnig.

*Noder: Ceir gwybodaeth fanwl ynghylch sut i asesu incwm rhiant yn y daflen ffeithiau*

*"Asesu incwm rhieni i benderfynu cymhwystra ar gyfer y Cynnig Gofal Plant". Mae hyn yn cynnwys rhieni sy'n hunangyflogedig, ar gontractau dim oriau, neu ar gontractau tymhorol.*

**Diffiniad o riant mewn addysg neu hyfforddiant**

62. Gall rhiant mewn addysg neu hyfforddiant fod yn rhiant sydd naill ai:

    - wedi cofrestru ar gwrs israddedig neu ôl-raddedig Addysg Uwch (AU) sydd o leiaf 10 wythnos o hyd. Mae hyn yn cynnwys cyrsiau a gyflwynir drwy ddysgu o bell.
    - wedi cofrestru ar gwrs sy'n 10 wythnos o leiaf ac sy'n cael ei gyflwyno mewn Sefydliad Addysg Bellach (AB). Mae hyn yn cynnwys cyrsiau a gyflwynir drwy ddysgu o bell.

63. Dylai rhieni mewn addysg neu hyfforddiant ddangos eu bod yn gymwys drwy ddarparu tystiolaeth o gofrestru ffurfiol ar gwrs AU neu AB perthnasol. Os yw rhiant wedi gwneud cais a chael cynnig lle ar gwrs AU neu AB perthnasol, ond nad yw wedi gallu cofrestru eto, dylai ddarparu tystiolaeth o gynnig ffurfiol o le ar gwrs.

64. Byddai rhiant mewn addysg neu hyfforddiant sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd yn gallu manteisio ar y Cynnig o'r adeg y mae eu cwrs yn dechrau.

**Rhieni a Gofalwyr**

*Gofalwyr sy'n berthnasau a gwarcheidwaid arbennig:*

65. Ystyr gofalwyr sy'n berthnasau yw teulu a ffrindiau sydd wedi cymryd cyfrifoldeb am blentyn neu lysblentyn, lle nad nhw yw'r rhiant, oherwydd nad oes gan y plentyn rieni neu fod ganddo rieni na allant ofalu am y plentyn a'i bod yn debygol y byddai'r plentyn fel arall yn derbyn gofal gan Awdurdod Lleol oherwydd pryderon mewn perthynas â lles y plentyn.

66. Mae gofalwyr sy'n berthnasau a gofalwyr sydd â gorchymyn gwarcheidwad arbennig yn gallu manteisio ar y Cynnig cyhyd â'u bod:

    - yn bodloni'r holl feini prawf cymhwysedd ar gyfer rhieni
    - yn gofalu am blentyn sydd o'r oedran cywir i fanteisio ar y Cynnig
    - yn byw gyda'r plentyn

    Mae angen i bartneriaid gofalwyr sy'n berthnasau, p'un a yw'r ddau oedolyn yn ofalwyr sy'n berthnasau ai peidio, fodloni'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer rhieni hefyd.

67. Nid yw'r lwfans gwarcheidiaeth arbennig yn cael ei ystyried yn incwm trethadwy ac felly nid yw'n cyfrif fel incwm ac ni ddylid ei ystyried wrth asesu a ydynt yn bodloni'r meini prawf o ran isafswm incwm.

*Gofalwyr maeth a rhieni sy'n mabwysiadu:*

68. Os bydd rhiant maeth yn bodloni’r meini prawf cymhwystra ar gyfer rhieni, gall fanteisio ar y Cynnig ar gyfer unrhyw un o’i blant cymwys. Mae hyn yn cynnwys eu plentyn/plant maeth, ar yr amod bod y gofal plant yn gydnaws â Chynllun Gofal eu plentyn maeth.

69. Gall gofalwyr maeth ddefnyddio eu lwfans maethu fel prawf o enillion er mwyn bodloni'r meini prawf o ran isafswm incwm ar gyfer y Cynnig.

70. Os bydd rhiant sydd ar absenoldeb mabwysiadu yn bodloni’r meini prawf cymhwystra ar gyfer rhieni, gall fanteisio ar y Cynnig ar gyfer unrhyw un o’i blant cymwys. Mae hyn yn cynnwys y plentyn a fabwysiadwyd, cyn belled â bod y trefniant gofal plant yn gydnaws â Chynllun Cymorth Mabwysiadu’r plentyn. Gallai gofalwyr sefydlogrwydd cynnar yng Nghymru gael eu cynnwys yn y garfan faethu uchod tra byddant yn maethu’r plentyn cyn i Orchymyn Lleoli gael ei roi a chyn y newid yn statws lleoliad y plentyn i statws mabwysiadu.

*Rhieni nad yw cyllid cyhoeddus ar gael iddynt:*

71. Nid yw’r ffaith nad yw cyllid cyhoeddus ar gael i rieni yn golygu na chânt fanteisio ar y Cynnig. Caiff rhieni sy’n destun rheolaeth fewnfudo, fel y’u diffinnir gan Adran 115(9) Deddf Mewnfudo a Lloches 1999 fanteisio ar y Cynnig cyn belled â’u bod yn bodloni’r holl feini prawf cymhwystra eraill.

*Rhieni yn y Lluoedd Arfog:*

72. Bydd rhieni sy’n aelodau o'r Lluoedd Arfog sy'n byw yng Nghymru yn gallu manteisio ar y Cynnig cyn belled â’i bod yn bodloni'r meini prawf cymhwystra ar gyfer rhieni.

73. Yn achos aelwydydd dau riant lle mae un rhiant yn gweithio neu mewn addysg neu hyfforddiant (ac yn bodloni’r meini prawf cymhwysedd i rieni) a’r llall yn cael taliadau gan y Lluoedd Arfog i gyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog sydd wedi'u niweidio'n ddifrifol (er enghraifft, Gwarant Talu Incwm), bydd y teuluoedd hynny’n gymwys i gael y Cynnig. Fodd bynnag, yn achos aelwydydd lle bo un rhiant yn derbyn budd-dal eithrio, a'r llall yn cael taliad anabledd gan y Lluoedd Arfog, ni fydd y teuluoedd hynny'n gymwys i gael y Cynnig.

74. Yn achos rhieni sy'n gwasanaethu dramor ond sy'n byw yng Nghymru fel arfer,

bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn adlewyrchu'r ddarpariaeth a roddir o dan y Cynnig Gofal Plant yn Lloegr.

*Aelwydydd digartref:*

75. Yn achos rhieni sy'n ddigartref ond sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer rhieni, mae’r teuluoedd hynny’n gymwys i gael y Cynnig. Os oes gan y teulu drefniant byw dros dro (fel byw gyda ffrindiau) ac nad oes ganddynt fil Treth Gyngor i’w ddefnyddio fel tystiolaeth o breswylio, gellid defnyddio dogfen arall. Gallai hyn gynnwys y cyfeiriad a ddefnyddir i gofrestru'r plentyn ar gyfer lle mewn addysg neu lythyr gan eu swyddog tai/darparwr cymdeithasau tai yn cadarnhau eu bod ar restr aros am lety yn yr ardal.

*Aelwydydd mewn cymunedau sy'n teithio:*

76. Mae rhieni mewn cymunedau sy’n teithio sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd i rieni yn gymwys i gael y Cynnig. Os ydynt yn byw ar lain parhaol dylent fod yn gallu darparu llythyr treth gyngor neu dystiolaeth eu bod yn talu treth gyngor. Os nad ydynt yn gallu darparu tystiolaeth eu bod yn talu treth gyngor, byddai unrhyw ohebiaeth swyddogol a anfonwyd atynt yn ddigonol cyn belled â bod y cyfeiriad yn cyfateb i'r cyfeiriad ar y ffurflen gais. Hefyd, os ydynt wedi cael lle mewn addysg gynnar, bydd y cais hwnnw yn ddigonol fel tystiolaeth o breswylio.

*Yr eithriadau lle nad oes rhaid i aelwydydd dau riant fodloni’r meini prawf o ran enillion yw neu fod mewn addysg neu hyfforddiant:*

77. Dyma’r eithriadau lle nad oes rhaid i aelwydydd dau riant fodloni'r meini prawf enillion na bod mewn addysg neu hyfforddiant:
    - mae un rhiant yn gyflogedig neu mewn addysg neu hyfforddiant (ac mae'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd i rieni) ac mae gan un rhiant gyfrifoldebau gofalu sylweddol. Mae hyn yn seiliedig ar fudd-daliadau penodol a dderbynnir ar gyfer gofalu
    - mae’r ddau riant yn gyflogedig (ac yn bodloni’r meini prawf cymhwysedd i rieni) ond bod un rhiant neu’r ddau riant i ffwrdd o’r gweithle dros dro ar absenoldeb mamolaeth, tadolaeth neu fabwysiadu statudol neu absenoldeb rhiant di-dâl
    - mae'r ddau riant mewn addysg neu hyfforddiant (ac yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd i rieni) ond mae un rhiant neu'r ddau riant wedi rhoi’r gorau i’w hastudiaethau'n ffurfiol dros dro am resymau sy'n ymwneud ag absenoldeb mamolaeth, tadolaeth, absenoldeb mabwysiadu neu absenoldeb rhiant; neu
    - cyflogir un rhiant ac mae un rhiant mewn addysg neu hyfforddiant (ac mae'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd rhiant) ond mae'r rhiant sy'n gweithio i ffwrdd o'r gweithle dros dro ar absenoldeb statudol mamolaeth, tadolaeth neu fabwysiadu neu absenoldeb rhiant di-dâl a/neu mae'r rhiant sydd mewn addysg neu hyfforddiant wedi rhoi’r gorau i’w astudiaethau'n ffurfiol dros dro am resymau'n ymwneud ag absenoldeb mamolaeth, tadolaeth, absenoldeb

mabwysiadu neu absenoldeb rhiant

- lle mae’r ddau riant yn gyflogedig (ac yn bodloni’r meini prawf cymhwysedd i rieni) ond bod un rhiant neu’r ddau riant i ffwrdd o’r gweithle dros dro ar dâl salwch statudol
- mae'r ddau riant mewn addysg neu hyfforddiant (ac yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd i rieni) ond mae un rhiant neu'r ddau riant wedi rhoi’r gorau i’w hastudiaethau'n ffurfiol dros dro oherwydd salwch hirdymor
- cyflogir un rhiant ac mae un rhiant mewn addysg neu hyfforddiant (ac yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd i rieni) ond mae'r rhiant sy'n gweithio i ffwrdd o'r gweithle dros dro ar dâl salwch statudol a/neu mae'r rhiant sydd mewn addysg neu hyfforddiant wedi rhoi’r gorau i’w astudiaethau'n ffurfiol dros dro oherwydd salwch hirdymor
- mae un rhiant yn gyflogedig neu mewn addysg neu hyfforddiant (ac yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd i rieni) ac mae un rhiant yn anabl neu'n analluog o ran iechyd. Mae hyn yn seiliedig ar y ffaith bod y rhiant yn derbyn un o'r budd-daliadau cymwys a ganlyn, neu'n meddu ar hawl sylfaenol i un ohonynt:

    - Budd-dal analluogrwydd
    - Lwfans gofalwyr
    - Lwfans anabledd difrifol
    - Budd-dal analluogrwydd hirdymor
    - Lwfans cyflogaeth a chymorth
    - Credydau yswiriant gwladol ar sail anallu i weithio neu allu cyfyngedig i weithio
    - Credyd Cynhwysol lle mae’r unigolyn wedi’i asesu fel rhywun â gallu cyfyngedig i weithio

78. Mewn teuluoedd dau riant lle bo un rhiant yn gweithio neu mewn addysg neu hyfforddiant a'r llall wedi ymddeol yn gynnar ar sail afiechyd, byddant yn gymwys os bydd y rhiant yr effeithir arno yn methu gweithio oherwydd y mater iechyd a’i gorfododd i ymddeol a’i fod yn cael un o’r budd-daliadau cymwys a restrir uchod, neu fod ganddo hawl sylfaenol i gael un ohonynt. Yn achos teulu un rhiant, ni fyddent yn gymwys pe byddai'r rhiant yn ymddeol yn gynnar ar sail afiechyd. Mae'n rhaid i un aelod o'r aelwyd fod yn gweithio neu mewn addysg neu hyfforddiant er mwyn bod yn gymwys i gael y Cynnig.

79. Rhaid i riant fod yn derbyn un o'r budd-daliadau cymwys i fod yn gymwys ar gyfer y Cynnig. Yr unig eithriad yw pan fo'r Adran Gwaith a Phensiynau yn penderfynu bod gan berson hawl sylfaenol i un o'r budd-daliadau cymwys.

*Eithriadau lle nad oes rhaid i aelwydydd un rhiant fodloni'r meini prawf enillion neu orfod bod mewn addysg a hyfforddiant:*

80. Rhaid i'r unig riant mewn teulu un rhiant fod yn gweithio neu fod mewn addysg neu

hyfforddiant a bodloni'r meini prawf cymhwysedd i rieni. Yr unig eithriad i hyn yw:

- bod y rhiant yn cael ei gyflogi (ac yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd i rieni) ond ei fod i ffwrdd o'r gweithle dros dro ar absenoldeb salwch, mamolaeth, tadolaeth neu fabwysiadu statudol neu ar absenoldeb rhiant di-dâl
- mae'r rhiant mewn addysg neu hyfforddiant (ac yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd i rieni) ond mae wedi rhoi'r gorau i'w astudiaeth yn ffurfiol dros dro am resymau'n ymwneud ag absenoldeb mamolaeth, absenoldeb tadolaeth, absenoldeb mabwysiadu neu absenoldeb rhiant neu oherwydd salwch hirdymor.

*Rhieni sydd wedi gwahanu:*

81. Os yw rhieni wedi gwahanu ond nad oes ganddynt warchodaeth gyfartal am blentyn, ystyrir bod y plentyn yn rhan o aelwyd y rhiant sydd â'r brif warchodaeth.

82. Mewn achosion lle mae gan rieni warchodaeth gyfartal am blentyn, bydd angen i un o'r rhieni gael ei enwebu i weithredu fel y rhiant arweiniol at ddibenion y Cynnig. Lle nad yw'r rhieni'n gallu cytuno ar hynny, dylid cyfeirio'r mater at yr Awdurdod Lleol er mwyn penderfynu yn ei gylch. Mater i'r rhieni yw'r modd y mae'r gofal plant yn cael ei ddefnyddio a'i ddyrannu rhwng yr amser y mae'r plentyn yn ei dreulio gyda'r ddau riant.

*Y Cynnig Gofal Plant a Budd-daliadau:*

83. Caiff rhieni fanteisio ar Gredydau Treth, Gofal Plant Di-dreth neu Gredyd Cynhwysol ar yr un pryd â'r Cynnig ar gyfer unrhyw oriau ychwanegol o ofal plant a dalant amdano mewn perthynas â'u plentyn neu blant eraill yn y teulu. Ni all rhieni hawlio credydau treth na budd-daliadau eraill ar gyfer unrhyw oriau gofal plant y maent yn ei gael o dan y Cynnig.

## Adran 5 – Beth sy'n digwydd pan fydd rhiant yn peidio â bod yn gymwys mwyach?

Mae'r adran a ganlyn yn nodi'r hyn a ddylai ddigwydd pan fydd rhiant sy'n derbyn y Cynnig Gofal Plant yn peidio â bod yn gymwys mwyach.

**Cyfnodau Esemptio Dros Dro**

84. Ar adegau, efallai y bydd rhieni'n peidio â bod yn gymwys mwyach ar gyfer y Cynnig, hyd yn oed pan fydd eu plentyn yn gymwys o hyd. Gallai hyn fod pan fydd un rhiant neu'r ddau riant yn colli eu swydd, mae eu henillion yn gostwng i lai na'r isafswm sy'n ofynnol, mae eu henillion yn cynyddu'n uwch na'r uchafswm o ran trothwy incwm neu nid ydynt bellach wedi'u cofrestru ar gwrs addysg neu hyfforddiant perthnasol. Er mwyn rhoi sefydlogrwydd i blant a darparwyr gofal plant, ac er mwyn rhoi'r cyfle i rieni ddod yn gymwys eto, bydd rhieni sy'n peidio â bod yn gymwys mwyach yn dal i allu defnyddio'r Cynnig am gyfnod byr.

85. Pan fydd person yn peidio â bod yn gymwys ar gyfer y Cynnig Gofal Plant, byddant yn dechrau cyfnod esemptio dros dro o 8 wythnos. Dylai'r cyfnod esemptio dros dro ddechrau pan fydd amgylchiadau'r rhiant yn newid gan ei wneud yn anghymwys i fanteisio ar y Cynnig. Pan fo cyfnod esemptio dros dro rhiant yn dod i ben, os yw'r rhiant yn anghymwys i gael y Cynnig o hyd, ni fydd yn gallu manteisio ar y Cynnig mwyach, a bydd yn dod yn gyfrifol am dalu'r holl gostau sy'n gysylltiedig â defnyddio'r darparwr gofal plant hwnnw.

86. Bydd disgwyl i'r rhieni roi gwybod i'w Hawdurdod Lleol a'u darparwr pan fydd eu hamgylchiadau'n newid a hynny'n gallu golygu y byddant yn peidio â bod yn gymwys i fanteisio ar y Cynnig mwyach. Os bydd amgylchiadau rhiant yn newid ac nad ydynt yn hysbysu eu Hawdurdod Lleol ar unwaith:

    - os yw eu hamgylchiadau wedi newid lai nag 8 wythnos cyn hyn, bydd y cyfnod esemptio dros dro yn dal i redeg o'r adeg y peidiodd â bod yn gymwys ar gyfer y Cynnig

    - os yw eu hamgylchiadau wedi newid fwy nag 8 wythnos cyn hyn, dylid dileu'r cyllid ar unwaith a dylai'r awdurdod cyflawni gymryd camau i adennill unrhyw arian a gafwyd gan y rhiant y tu allan i'r cyfnod eithrio.

87. Ni ddylai rhiant sydd mewn cyfnod esemptio dros dro drefnu oriau gofal plant os nad yw'n bwriadu eu defnyddio. Bydd trefnu oriau gofal plant nad oes eu hangen yn cael ei ystyried fel hawlio drwy dwyll, ac os canfyddir bod rhiant wedi gwneud hyn bydd eu Hawdurdod Lleol yn cael gwybod. Yr unig eithriad i hyn yw lle mae'r plentyn gartref am reswm annisgwyl neu reswm na ellir ei osgoi, megis salwch.

88. Ni ddylid ar unrhyw gyfrif ddefnyddio cyfnod esemptio dros dro (neu'r Cynnig yn ei gyfanrwydd) i drefnu oriau gofal plant nad yw'r rhiant yn bwriadu eu defnyddio er mwyn talu ffioedd cadw a godir gan ddarparwr, pan na fo’r plentyn yn mynychu’r darparwr yn ystod yr oriau hyn.

89. Gallai fod gan riant fwy nag un cyfnod esemptio dros dro. Er enghraifft pe byddai rhiant yn peidio â bod yn gymwys mwyach, ac yn defnyddio cyfnod esemptio dros dro (yn rhannol neu yn llawn) - ac wedyn mae'r rhiant hwnnw mewn sefyllfa lle y mae'n gymwys eto, gallai gael cyfnod esemptio dros dro arall pe byddai'n peidio â bod yn gymwys mwyach am ail dro neu am drydydd tro.

90. Pan fydd cyfnod esemptio dros dro rhiant yn dod i ben a'i fod yn peidio â bod yn gymwys mwyach ac yna'n gwneud cais am y Cynnig eto yn y dyfodol, dylai'r Awdurdod Lleol ailasesu cymhwysedd y rhiant gan y gallai ei amgylchiadau fod wedi newid eto.

## Adran 6 – Beth am blant y mae angen cymorth ychwanegol arnynt?

Mae'r adran a ganlyn yn nodi'r ddarpariaeth sy'n galluogi plentyn ag anghenion cymorth ychwanegol i fanteisio ar y Cynnig.

**Grant Cymorth Ychwanegol**

91. Mewn perthynas ag elfen gofal plant y Cynnig, mae cyllid ychwanegol drwy'r Grant Cymorth Ychwanegol yn cael ei ddarparu ar ben y gyfradd graidd fesul awr i sicrhau bod plant yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt er mwyn gallu manteisio ar y Cynnig.

92. Mae cyllid mewn perthynas â chymorth ychwanegol i blant er mwyn iddynt allu manteisio ar elfen addysg y Cynnig eisoes yn cael ei gyfeirio drwy Awdurdodau Lleol, sydd wedi sefydlu systemau ar gyfer asesu'r angen a dyrannu adnoddau.

93. O ran y Cynnig, gallai cymorth ychwanegol olygu bod gan blentyn anawsterau parhaol neu rai dros dro fel a ganlyn:
    - Anawsterau Gwybyddol a Dysgu, gan gynnwys anawsterau dysgu penodol, cymedrol, difrifol neu ddwys
    - Anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol
    - Anawsterau cyfathrebu ac ymwneud ag eraill, gan gynnwys awtistiaeth; anhawster lleferydd, iaith a chyfathrebu
    - Nam synhwyraidd a/neu gorfforol, gan gynnwys nam ar y clyw a/neu'r golwg neu anawsterau corfforol
    - Cyflyrau meddygol

94. Dylid cynnal asesiad o natur y cymorth sydd ei angen ar blant yn unol â'r prosesau arferol ar gyfer pob Awdurdod Lleol.

95. O dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018(1), bydd plant sydd ag anghenion meddygol neu ofal iechyd dwys yn cael eu hariannu drwy'r gyllideb gofal cymdeithasol. Felly, ni fydd angen cyllid ychwanegol ar y plant hynny o dan y Cynnig.

96. Gweler y Canllawiau ar Grant Cymorth Ychwanegol Cynnig Gofal Plant Cymru i gael rhagor o fanylion.

[1] 2018 dccc 2.

## Adran 7 – Pa ddarparwyr a all gynnig darpariaeth o dan y Cynnig?

Mae'r adran a ganlyn yn nodi pa ddarparwyr sy'n gallu darparu oriau gofal plant a ariennir o dan y Cynnig.

**Mathau o ddarparwyr**

97. Gall elfen gofal plant y Cynnig gael ei darparu gan unrhyw leoliad gofal plant unrhyw le yng Nghymru neu yn yr ardaloedd ar y ffin, cyn belled â'u bod wedi'u cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) neu Ofsted yn Lloegr. Mae hyn yn cynnwys clybiau brecwast, clybiau prynhawn a chlybiau gwyliau. I'r perwyl hwnnw, byddant yn cydymffurfio â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer gofal plant, a byddant yn gyfarwydd â Fframwaith Ansawdd AGC ac yn cael eu harolygu'n unol â hynny. Bydd darparwyr yn Lloegr yn cael eu harolygu gan Ofsted a byddant yn cydymffurfio â'u safonau hwy.

98. Gall gwarchodwyr plant sy'n gofrestredig ddarparu'r Cynnig Gofal Plant ar gyfer plentyn sydd hefyd yn berthynas, ar yr amod bod y gofal yn cael ei ddarparu y tu allan i gartref y plentyn, ac nad oes gan y darparwr gofal plant gyfrifoldeb rhiant dros y plentyn.

99. Nid yw nanis yng Nghymru yn cael eu rheoleiddio i'r un graddau â darparwyr gofal plant cofrestredig, ac felly ni ellir eu hariannu i ddarparu'r Cynnig.

100. Bydd disgwyl i ddarparwyr gofal plant sy'n dymuno bod yn rhan o'r Cynnig wneud y canlynol:

- ymrwymo i gytundeb gyda'r Awdurdod Lleol perthnasol i ddarparu'r Cynnig yn seiliedig ar y terfynau a nodwyd, sy'n cynnwys manylion y gyfradd ariannu benodedig
- peidio â chodi unrhyw ffioedd fesul awr ychwanegol ar rieni am y plant 3 a 4 oed sy'n mynychu dan delerau'r Cynnig
- dilyn y canllawiau ar gyfer codi tâl am elfennau ychwanegol wrth godi tâl ar rieni sy'n manteisio ar y Cynnig am gostau bwyd a theithio
- sicrhau, hyd y gellir, bod gofal plant yn cael ei ddarparu'n hyblyg er mwyn helpu i ddiwallu anghenion rhieni sy'n gymwys
- hysbysu'r Awdurdod Lleol os bydd newid mewn amgylchiadau, megis os bydd rhiant yn methu hawlio'r oriau a ariennir drwy'r Cynnig

101. Bydd darparwyr gofal plant yn cael eu hannog i wneud y canlynol hefyd:

- rhoi darpariaeth ac adnoddau dwyieithog neu Gymraeg, lle bo'n bosibl
- rhoi cymorth i blant y mae angen cymorth ychwanegol arnynt, lle bo'n bosibl

Dylai Awdurdodau Lleol eu cefnogi yn eu hymdrechion yn hyn o beth.

102. O dan y Cynnig gall plentyn ddefnyddio uchafswm o ddau leoliad gofal plant cofrestredig, yn ogystal â’u lleoliad addysg gynnar, yn ystod unrhyw ddiwrnod.

**Darpariaeth Drawsffiniol**

103. Bydd rhieni cymwys yn gallu manteisio ar eu gofal plant a ariennir o dan y Cynnig mewn unrhyw leoliad gofal plant cofrestredig yn Lloegr, cyn belled â bod y lleoliad wedi'i gofrestru a'i reoleiddio gan Ofsted.

104. Nid yw rhieni sy’n byw yn Lloegr yn gymwys i gael Cynnig Gofal Plant Cymru. Bydd angen iddynt drafod â'u Hawdurdod Lleol yn Lloegr p'un a allant ddefnyddio'r Cynnig Gofal Plant yn Lloegr i dalu am ofal plant ac addysg gynnar yng Nghymru.

## Adran 8 – Beth yw'r gyfradd a delir i ddarparwyr sy'n darparu'r Cynnig?

Mae'r adran a ganlyn yn nodi'r gyfradd fesul awr a delir am ofal plant a ariennir gan Lywodraeth Cymru a delir drwy'r Cynnig, yn ogystal â chanllawiau sy'n ymwneud â thaliadau darparwyr i rieni.

**Cyfradd tâl fesul awr ar gyfer gofal plant**

105. Mae cyfradd dâl sylfaenol genedlaethol o £5.00 yr awr yn cael ei thalu i ddarparwyr gofal plant sy’n darparu gofal o plant dan y Cynnig.

106. Mae'r gyfradd sylfaenol genedlaethol o £5.00 i'w thalu am ddarpariaeth ar wyliau banc, hyd yn oed os mai polisi'r darparwr yw codi tâl ar gyfradd uwch.

107. Gall darparwyr hawlio ar gyfer sesiynau hanner awr ar gyfradd o £2.50.

108. Dylid talgrynnu unrhyw amrywiad i'r gyfradd fesul awr i’r hanner awr agosaf. Felly, dylid talgrynnu sesiwn sy’n cynnwys chwarter awr i'r hanner awr agosaf. Mewn achosion o'r fath, rhaid ystyried cyfanswm wythnosol yr oriau a ddefnyddiwyd, ee os yw rhiant yn defnyddio darpariaeth sydd ar agor dim ond am 2 awr 15 munud y diwrnod, gellir talu'r darparwr hyd at yr hanner awr agosaf, ee 2 awr 30 munud. Fodd bynnag, pe bai'r ddarpariaeth hon yn cael ei defnyddio am fwy nag un diwrnod yr wythnos, dylid ystyried cyfanswm yr oriau a ddefnyddiwyd dros gyfnod o 1 wythnos. Byddai'r cyfanswm a delir i'r darparwr i'r hanner awr agosaf o'r cyfanswm ar gyfer yr wythnos dan sylw.

109. Mae’r gyfradd dâl sylfaenol genedlaethol yn talu dim ond am ofal plant ac nid yw’n cynnwys taliadau am fwyd, cludiant na gweithgareddau eraill, fel gweithgareddau oddi ar y safle y mae costau’n gysylltiedig â hwy, er enghraifft teithiau dydd.

**Codi ffioedd ychwanegol:**

110. Pe bai darparwr gofal plant fel arfer yn codi mwy na £5.00 yr awr am ofal plant, ni all godi swm ychwanegol fesul awr ar rieni ar ben y gyfradd dan y Cynnig. Ni fydd darparwyr sy'n torri'r cytundeb ac yn codi ffioedd ychwanegol fesul awr yn derbyn cyllid i ddarparu'r Cynnig o hynny ymlaen.

111. Nid yw'n ofynnol i ddarparwyr godi gyfradd fesul awr y Cynnig ar gyfer darpariaeth nad yw'n cael ei darparu o dan y Cynnig.

**Codi tâl am elfennau ychwanegol - bwyd:**

112. Bydd darparwyr gofal plant yn gallu codi tâl ar rieni am fwyd a diod. Fodd bynnag, mae’n rhaid i ddarparwyr gofal plant ystyried canllawiau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â phennu ffioedd ychwanegol pan fyddant yn codi ar rieni am elfennau

ychwanegol uwchlaw y gofal am y plentyn.

113. Ni ddylai rhieni sy’n rhan o’r Cynnig Gofal Plant, fel amod o bresenoldeb eu plentyn, orfod derbyn a thalu am fwyd gan y darparwr a gallant ddewis ddarparu pecyn bwyd eu hunain, os bydd y lleoliad fel arfer yn caniatáu hynny.

114. Ni ddylai darparwyr gofal plant godi unrhyw ffioedd ychwanegol ar rieni sy'n defnyddio'r Cynnig ar gyfer unrhyw elfennau uwchlaw y costau gofal plant eu hunain, os nad ydynt hefyd yn codi ffioedd ar gyfer yr elfennau hynny ar rieni nad ydynt yn defnyddio'r Cynnig. Er enghraifft, os nad yw darparwr gofal plant yn codi ffi ar rieni am fwyd fel eitem ar wahân, yna ni allant godi ffi ar rieni sy'n defnyddio'r Cynnig am fwyd ar wahân.

115. Os bydd darparwyr gofal plant yn cynnwys ffi ar gyfer bwyd fel rhan o'r gwasanaeth y maent yn ei ddarparu, ond mae'r ffi am gost y bwyd wedi'i chyfuno fel rhan o'u cyfradd safonol am hanner diwrnod neu diwrnod llawn, yna fel rheol nid yw hynny'n cael ei ddangos ar wahân ar anfonebau. Pe byddai lleoliad yn codi ffi am fwyd, er enghraifft, fel rhan o ddarparu'r Cynnig, dylai'r darparwr ei gwneud yn glir am beth y mae'r tâl hwnnw i'r rhieni sy'n defnyddio'r Cynnig.

116. Y canllawiau mewn perthynas â chodi tâl am fwyd mewn sesiwn gofal dydd llawn (tua 10 awr) yw na ddylid codi mwy na £9.00 y dydd ar rieni am fwyd. Byddai tâl o £9.00 am sesiwn gofal dydd llawn yn cynnwys tri phryd am £2.50 y pryd a 2 fyrbryd am dâl o 75c y byrbryd.

117. Y canllawiau mewn perthynas â chodi tâl am fwyd mewn sesiwn hanner diwrnod (tua 5.5 awr) yw na ddylid codi mwy na £5.75 ar rieni. Byddai’r ffigur hwn yn ei gwneud yn bosibl codi ar blentyn am ddau bryd yn ôl cyfradd o £2.50 y pryd ac am fyrbryd yn ôl cyfradd o 75c y byrbryd.

118. Ar gyfer gofal sesiynol lle na ddarperir pryd ond lle mae plant yn cael byrbryd, y canllaw yw na ddylid codi mwy na 75c y dydd ar rieni am ddarparu byrbryd.

**Codi tâl am elfennau ychwanegol - trafnidiaeth:**

119. Bydd darparwyr gofal plant yn gallu codi ar rieni am drafnidiaeth sydd â chostau cysylltiedig. Fodd bynnag, mae’n rhaid i ddarparwyr gofal plant ystyried canllawiau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â phennu ffioedd ychwanegol wrth godi ar rieni am elfennau ychwanegol uwchlaw y gofal am y plentyn.

120. Ni fydd Llywodraeth Cymru yn pennu ffioedd ar gyfer trafnidiaeth. Bydd costau trafnidiaeth yn amrywio yn ôl y lleoliad, y math o ddarparwr gofal plant, y math o drafnidiaeth sy'n cael ei darparu a'r costau sy'n gysylltiedig â staffio a chynnal y cerbydau. Mater i'r darparwr yw penderfynu sut maent yn pennu eu cyfradd ar gyfer cludiant.

121. Y canllawiau mewn perthynas â chodi tâl am drafnidiaeth yw bod cyfraddau trafnidiaeth yn cael eu pennu ar gyfradd resymol.

122. Y canllawiau mewn perthynas â chodi tâl am drafnidiaeth yw na ddylid codi mwy ar y rheini sy'n defnyddio'r Cynnig am drafnidiaeth na'r rheini nad ydynt yn defnyddio'r Cynnig. Dylai Awdurdodau Lleol fonitro costau trafnidiaeth a godir ar y rhieni sy'n defnyddio'r Cynnig er mwyn sicrhau na chodir gormod o dâl arnynt.

**Codi tâl am elfennau ychwanegol - cyffredinol:**

123. Bydd darparwyr gofal plant yn gallu codi ar rieni am elfennau ychwanegol, megis gweithgareddau y tu allan i'r lleoliad, sydd â chost yn gysylltiedig â hwy. Fodd bynnag, mae'n rhaid i ddarparwyr gofal plant ystyried canllawiau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â phennu ffioedd ychwanegol, wrth godi ar rieni am elfennau ychwanegol uwchlaw y gofal am y plentyn.

124. Dylai rhieni sy'n defnyddio'r Cynnig allu dewis peidio â chaniatáu i'w plentyn gymryd rhan mewn gweithgareddau y tu allan i'r lleoliad ac ni ddylai hynny fod yn amod ar ddefnyddio'r lleoliad gofal plant. Dylai gweithgareddau fel hynny fod yn eithriadol ac yn achlysurol yn hytrach na bod yn weithgaredd rheolaidd y lleoliad.

125. Ni fydd Llywodraeth Cymru yn pennu ffioedd ar gyfer gweithgareddau oddi ar y safle. Bydd cyfraddau ar gyfer gweithgareddau oddi ar y safle sy'n ysgwyddo costau hefyd yn amrywio yn ôl natur y gweithgareddau.

126. Ni fyddem yn disgwyl i ddarparwyr godi tâl ychwanegol ar rieni sy'n defnyddio'r Cynnig am weithgareddau arferol yn eu lleoliad.

127. Y canllawiau mewn perthynas â chodi tâl am eitemau ychwanegol yw na ddylai darparwyr godi unrhyw ffioedd ychwanegol ar rieni sy'n defnyddio'r Cynnig am unrhyw elfennau sydd uwchlaw y costau gofal plant eu hunain, os nad ydynt hefyd yn codi ffioedd am yr elfennau hynny ar rieni nad ydynt yn defnyddio'r Cynnig.

128. Ni ellir defnyddio'r Cynnig Gofal Plant i dalu am gostau gofal plant anuniongyrchol fel ffi gwyliau neu ffi weinyddol neu ffi gadw ymlaen llaw. Os yw'r rhiant yn dewis defnyddio darparwr sy'n codi'r ffioedd hyn, mater i'r rhiant fydd hyn a'r rhiant sy'n talu'r gost.

**Achosion o beidio â chydymffurfio â chanllawiau codi tâl**

129. Bydd angen i Awdurdodau Lleol sicrhau bod manylion y gyfradd dalu a nodir yng Nghontract y Darparwr yn ystyried ac yn atgyfnerthu canllawiau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â darparwyr yn codi tâl am elfennau ychwanegol o dan y

Cynnig, fel yr amlinellir uchod.

130. Mae gan Awdurdodau Lleol gyfrifoldeb i fonitro’r ffioedd ychwanegol a godir ar rieni a gwerthuso a ydynt yn rhesymol ac yn gyson â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

131. Os nad yw darparwr gofal plant yn dilyn y canllawiau ac os ystyrir ei fod yn codi ffioedd ychwanegol gormodol neu afresymol, yna dylai’r Awdurdodau Lleol ystyried a yw hyn yn gyfystyr â thorri’r contract sydd ganddynt gyda’r darparwr a hysbysu Llywodraeth Cymru.

132. Ni ddylai darparwyr sy'n torri'r cytundeb yn bwrpasol neu’n gyson gael eu hariannu i ddarparu'r Cynnig.

### Cyllid ar gyfer darpariaeth addysg gynnar

133. Mae’r gyfradd ar gyfer darpariaeth addysg gynnar yn gyson â chyfradd y Cynnig Gofal Plant, er bod y drefn gyllido ar gyfer y ddwy yn wahanol. Mewn lleoliadau sy'n cynnig darpariaeth addysg gynnar, mae'n bwysig eu bod mor glir â phosibl am ba oriau o ran presenoldeb y plentyn sy'n cael eu talu amdanynt o dan bob elfen o'r Cynnig.

134. Os bydd darparwr gofal plant yn cael ei ariannu am oriau darpariaeth addysg gynnar, ni all godi ffi hefyd am ddarparu elfen gofal plant y Cynnig am yr un oriau. Byddai hynny'n cael ei ystyried yn godi ffioedd dwbl, ac yn debygol o arwain at gamau i adennill y costau.

### Hawlio am oriau a drefnwyd ond na ddefnyddiwyd

135. Os trefnwyd bod plentyn i fynychu lleoliad gofal plant ond nad yw'n mynychu oherwydd salwch, gellir defnyddio cyllid o dan y Cynnig i dalu am yr oriau a drefnwyd.

136. Os trefnwyd bod plentyn i fynychu lleoliad gofal plant ond nad yw'n mynychu oherwydd ei fod i ffwrdd ar wyliau, gellir defnyddio cyllid o dan y Cynnig i dalu am yr oriau a drefnwyd.

137. Os trefnwyd bod plentyn i fynychu lleoliad gofal plant ond nad yw'n gallu mynychu oherwydd bod y darparwr wedi cau oherwydd ei salwch ei hun, neu salwch ei staff, gellir defnyddio cyllid o dan y Cynnig i dalu am yr oriau a drefnwyd.

138. Os trefnwyd bod plentyn i fynd at warchodwr plant ond nad yw'n gallu mynd oherwydd bod y gwarchodwr plant yn gorfod mynd i'r llys, ni ddylid defnyddio cyllid o dan y Cynnig i dalu am yr oriau a drefnwyd. Yn hytrach, dylai'r gwarchodwr plant

ystyried hawlio am yr enillion a gollwyd (o fewn terfynau penodol) o ganlyniad i fynd i wasanaeth rheithgor neu fynd i'r llys fel tyst.

139. Dylai Awdurdodau Lleol gymharu’r oriau o ofal plant a drefnir â’r oriau o ofal plant a ddefnyddir. Dylai'r Awdurdod Lleol gasglu'r wybodaeth hon gan ddarparwyr fel rhan o'r broses fonitro a gwerthuso. Os yw'r wybodaeth hon yn dangos nad yw plentyn yn defnyddio’r oriau a drefnwyd yn rheolaidd, dylid trafod hyn gyda'r rhieni. Lle nad oes angen yr oriau, ni ddylid eu hariannu mwyach.

140. Mater i'r Awdurdodau Lleol fydd penderfynu a fydd modd i’r rhieni newid yr oriau a drefnwyd ganddynt o fewn unrhyw wythnos. Fodd bynnag, rhaid i'r darparwr allu darparu ar gyfer unrhyw newid ac ni ddylai'r newid arwain at fwy na 30 awr o ddarpariaeth a ariennir o fewn unrhyw wythnos.

## Adran 9 – Rolau a chyfrifoldebau Awdurdodau Lleol

Mae'r adran ganlynol yn nodi'r model sy'n sail i weithredu'r Cynnig a rolau a chyfrifoldebau Awdurdodau Lleol o fewn hynny.

### Y Model Gweithredu

141. O dan y model gweithredu ar gyfer y Cynnig Gofal Plant mae dau gategori o Awdurdod Lleol:

- **Awdurdodau Gweithredu** - maent yn gyfrifol am hyrwyddo'r Cynnig i rieni a darparwyr gofal plant yn eu hardaloedd, rhoi hyfforddiant i'w Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd ar sut i ddelio ag ymholiadau ynghylch y Cynnig, prosesu ceisiadau gan rieni, penderfynu ar gymhwystra a rhoi gwybod iddynt am y canlyniad. Maent hefyd yn prosesu ac yn gwneud taliadau i ddarparwyr gofal plant ar gyfer darparu'r Cynnig ac yn cyflawni tasgau awdurdodau ymgysylltu o fewn eu hardal eu hunain.

- **Awdurdodau Ymgysylltu** - maent yn gyfrifol am hyrwyddo'r Cynnig i rieni a darparwyr gofal plant yn eu hardaloedd, rhoi hyfforddiant i'w Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd ar sut i ddelio ag ymholiadau ynghylch y Cynnig, a darparu unrhyw wybodaeth sydd ei hangen ar yr awdurdod gweithredu i brosesu ceisiadau a gweinyddu'r Cynnig ar eu rhan.

### Rolau a Chyfrifoldebau - Awdurdodau Gweithredu

142. Mae'r penderfyniad ar sut i weithredu'r berthynas rhwng yr awdurdod gweithredu a'r awdurdod ymgysylltu yn cael ei bennu gan yr Awdurdodau Lleol sy'n bartneriaid. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y canlynol o leiaf gan awdurdod gweithredu:

- datblygu a rheoli system i alluogi'r rhieni yn ei awdurdod ei hun a'r awdurdod(au) ymgysylltu sy'n bartner iddo ddod i wybod am y Cynnig, ei ddeall a gwneud cais amdano;
- cynnig cyngor a chymorth i rieni a darparwyr o fewn ei awdurdod mewn perthynas â'r Cynnig drwy ei Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd;
- datblygu a rheoli system(au) ar gyfer gwirio cymhwystra rheini sy'n gwneud cais am y Cynnig yn ei awdurdod ei hun neu'r awdurdod(au) ymgysylltu sy'n bartner iddo;
- datblygu a rheoli system(au) ar gyfer ymdrin ag unrhyw ymholiadau mewn perthynas â chais gan riant yn ei awdurdod ei hun neu'r awdurdod(au) ymgysylltu sy'n bartner iddo;
- datblygu a rheoli system(au) ar gyfer cadarnhau cymhwystra i ddarparu'r Cynnig; ar gyfer ei gwneud yn bosibl cofrestru darparwyr a gwneud taliadau

i ddarparwyr gofal plant yn ei awdurdod ei hun ac yn yr awdurdod(au) ymgysylltu sy'n bartner iddo;

- gweithio gyda'r awdurdod(au) ymgysylltu sy'n bartner iddo i sefydlu a rheoli proses ar gyfer ymdrin â cheisiadau ar gyfer cyllid grant cymorth ychwanegol. Mae'r penderfyniadau'n ymwneud â'r grant hwn yn cael eu gwneud gan yr awdurdod ymgysylltu, ond mae'r awdurdod gweithredu'n gyfrifol am reoli taliadau'r Grant Cymorth Ychwanegol ar gyfer ei awdurdod ei hun a'r awdurdod(au) ymgysylltu sy'n bartner iddo;
- sefydlu a gweithredu prosesau ar gyfer casglu ac adrodd ar ddata penodol i Lywodraeth Cymru a phartïon eraill a gontractiwyd fel y nodir yn Adran 14 o’r canllawiau hyn;

143. Awdurdod gweithredu sydd yn gyfrifol am ymdrin â phob ymholiad ynghylch ceisiadau, p'un a yw'r cais ar waith neu wedi'i wrthod. Hefyd, disgwylir i'r awdurdod gweithredu fod yn brif bwynt cyswllt ar gyfer rhieni neu warcheidwaid sydd wedi gwneud cais am y Cynnig, naill ai yn yr awdurdod ei hun neu yn yr awdurdod(au) ymgysylltu sy'n bartner iddo. Fodd bynnag, gall yr awdurdod gweithredu gysylltu â'r awdurdod ymgysylltu i ddatrys materion penodol.

144. Wrth ddatblygu a gweithredu systemau a phrosesau ar gyfer darparu'r Cynnig, bydd angen i awdurdod gweithredu ystyried cynnwys y canllawiau hyn.

**Rolau a Chyfrifoldebau - Awdurdodau Ymgysylltu**

145. Mae'r penderfyniad ar sut i weithredu'r berthynas rhwng yr awdurdod gweithredu a'r awdurdod ymgysylltu yn cael ei bennu gan yr Awdurdodau Lleol sy'n bartneriaid. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y canlynol o leiaf gan awdurdodau ymgysylltu:

- hysbysebu a marchnata'r Cynnig i rieni a darparwyr yn ei awdurdod;
- darparu cyngor a chymorth i rieni a darparwyr yn ei awdurdod ar y Cynnig Gofal Plant drwy ei Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd/Tîm Gofal Plant;
- penderfynu ynghylch cyllid grant cymorth ychwanegol ar gyfer ei awdurdod a gweithio gyda'r awdurdod gweithredu i ddatblygu proses ar gyfer cyfathrebu'r penderfyniadau hyn er mwyn gallu talu'r grant. Bydd angen i awdurdodau ymgysylltu ystyried y canllawiau ar wahân ar gyllid grant cymorth ychwanegol wrth wneud eu penderfyniadau;
- darparu tystiolaeth i werthuswyr annibynnol trydydd parti ar gyfer gwerthuso'r Cynnig Gofal Plant;
- darparu gwybodaeth er mwyn i'r awdurdodau gweithredu allu asesu a phrosesu ceisiadau gan rieni a gwarcheidwaid o'r awdurdodau ymgysylltu. Byddai hyn yn cynnwys, ymhlith pethau eraill, darparu gwybodaeth er mwyn gallu gwirio cymhwystra rhiant, megis gwybodaeth ynghylch derbyniadau i ysgolion neu'r dreth gyngor; darparu gwybodaeth fanwl am ddarpariaeth feithrin y Cyfnod Sylfaen yn yr awdurdod ymgysylltu, a gwybodaeth am

asesiad yr awdurdod ymgysylltu o anghenion ychwanegol plentyn at ddibenion y Cynnig Gofal Plant;

- rhoi gwybod i awdurdodau gweithredu am unrhyw gamau a gymerwyd gan AGC mewn perthynas â darparwr fel camau dadgofrestru/atal.

146. Mae adran 10 y canllawiau hyn yn amlinellu manylion y cyllid sydd ar gael i'r Awdurdodau Lleol ar gyfer gweithredu'r Cynnig. Y partneriaethau gweithredu ac ymgysylltu unigol sy'n penderfynu sut orau i ddefnyddio'r arian sydd ar gael iddynt i ddarparu'r Cynnig. Er enghraifft, efallai y bydd yr awdurdodau'n dymuno ariannu ar y cyd swydd yn ymwneud â'r Cynnig Gofal Plant i weithio ar draws yr awdurdod gweithredu a'r awdurdod ymgysylltu i gefnogi'r broses o ddarparu'r Cynnig o fewn y cytundeb partneriaeth.

**Cytundeb ar gyfer Trefniadau Partneriaeth**

147. Mae llunio cytundeb yn amlinellu'r trefniadau partneriaeth rhwng awdurdod gweithredu ac awdurdod ymgysylltu yn amod o'r grant sydd ar gael i gefnogi'r gwaith o weinyddu'r Cynnig. Mater i'r Awdurdodau Lleol yw penderfynu ynghylch natur y cytundeb hwn, ond bydd angen i bob awdurdod gweithredu ac awdurdod ymgysylltu dan sylw fod yn fodlon â'r cytundeb.

**Cyfathrebu**

148. Disgwylir i bob Awdurdod Lleol hyrwyddo’r Cynnig ymhlith darparwyr gofal plant a rhieni a allai fod yn gymwys. Gallai hynny gynnwys digwyddiadau i ddarparwyr, deunyddiau hyrwyddo a threfnu bod gwybodaeth gyfredol ar gael ar wefannau (megis gwefannau’r Awdurdodau Lleol unigol).

149. Disgwylir i bob Awdurdod Lleol fynd ati’n weithredol i hyrwyddo’r Cynnig ac annog rhieni a phlant difreintiedig ac wedi'u tangynrychioli i’w hawlio. Dylid gwneud defnydd llawn o gysylltiadau â phartneriaid sydd mewn cysylltiad â rhieni perthnasol, megis ysgolion, Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau’n Deg, Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd, Canolfan Byd Gwaith, yn ogystal â chyfleoedd trwy bapurau newydd lleol a chyhoeddiadau eraill.

150. Mae eisoes yn ofynnol dan Ddeddf Gofal Plant 2006 i Awdurdodau Lleol ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i rieni a darpar rieni ynghylch y ddarpariaeth gofal plant yn eu hardal. O ganlyniad, dylai Awdurdodau Lleol sicrhau bod rhieni’n ymwybodol o’r Cynnig, ymateb i unrhyw gwestiynau am y Cynnig a helpu rhieni cymwys, trwy eu Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, i ymgeisio am y Cynnig a dod o hyd i ofal plant addas.

151. Mae Llywodraeth Cymru yn dyfarnu'r Grant Gweinyddu Gofal Plant ar gyfer costau gweinyddu'r grant. Mae costau sy'n gysylltiedig â chyhoeddi ac argraffu deunyddiau hyrwyddo yn gostau cymwys o dan y grant, a byddai Llywodraeth Cymru'n disgwyl i gostau o'r fath gael eu talu o'r dyfarniad grant.

152. Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu brand ar gyfer y Cynnig Gofal Plant a dylai Awdurdodau Lleol ddefnyddio’r brand hwnnw ble bo’n briodol.

153. Gall Awdurdodau Lleol roi cyhoeddusrwydd i'r Cynnig Gofal Plant yn lleol drwy eu cyfrifon ar y cyfryngau cymdeithasol er mwyn cyrraedd cynifer o bobl â phosibl. Dylid defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn unol â chanllawiau brandio Llywodraeth Cymru, ac yn unol â pholisi perthnasol yr Awdurdod Lleol.

## Adran 10 – Cyllid ar gyfer y Cynnig Gofal Plant

Mae'r adran ganlynol yn disgrifio'r tair ffrwd cyllid grant ar wahân y mae Llywodraeth Cymru yn eu darparu i Awdurdodau Lleol i gefnogi'r gwaith o ddarparu'r Cynnig.

### Y Grant Gweinyddu'r Cynnig Gofal Plant

154. Mae Awdurdodau Lleol yn cael cymorth ariannol, ar ffurf grant gweinyddu, i roi cymorth gyda chostau darparu'r Cynnig cyn i system a phrosesau cenedlaethol gael eu sefydlu. O ran yr Awdurdodau Gweithredu, diben y grant yw galluogi pob Awdurdod Gweithredu i ddarparu'r Cynnig o fewn eu hawdurdodau eu hunain a'r awdurdodau hynny y cytunwyd eu bod yn bartner iddynt. O ran yr Awdurdodau Ymgysylltu, diben y grant yw galluogi pob Awdurdod Ymgysylltu i ymgysylltu â rhieni a darparwyr er mwyn hyrwyddo'r Cynnig a chodi ymwybyddiaeth ohono, a darparu cymorth perthnasol i'r Awdurdod Gweithredu ar gyfer prosesu ceisiadau. Telir y cyllid mewn ôl-ddyledion 6 mis ar ôl cyflwyno adroddiad cynnydd a hawliad perthnasol ym mis Hydref a mis Mawrth.

155. Nid yw'r cyllid hwn wedi'i fwriadu i dalu cost y gofal plant ei hun.

### Y Grant Gofal Plant

156. Bydd y cyllid ar gyfer darparu'r gofal plant o dan y Cynnig yn cael ei dalu i Awdurdodau Gweithredu drwy'r Grant Gofal Plant. Bydd y grant yn cael ei dalu'n fisol mewn ôl-daliadau, i Awdurdodau Gweithredu yn dilyn cwblhau a chyflwyno hawliad a data monitro perthnasol. Yr awdurdodau unigol fydd yn gyfrifol am ddatblygu proses ar gyfer talu darparwyr.

### Y Grant Cymorth Ychwanegol

157. Dylai'r Cynnig fod ar gael i unrhyw riant cymwys. Bydd Llywodraeth Cymru'n rhoi cyllid ychwanegol i bob Awdurdod Lleol er mwyn dileu rhwystrau i ddarparwyr a rhieni cymwys sydd â phlant y mae angen cymorth ychwanegol arnynt i fanteisio ar y Cynnig. Gallai hyn gynnwys, ymhlith mesurau eraill, cynnig hyfforddiant, offer neu deganau arbenigol i'r darparwyr neu eu galluogi i gyflogi mwy o staff. Mae canllawiau penodol ar ddefnyddio cyllid ar gyfer plant y mae angen cymorth ychwanegol arnynt wedi'u rhoi i Awdurdodau Lleol ar wahân. Ceir rhagor o wybodaeth yn adran 6.

## Adran 11 – Darparu’r Cynnig – Prosesau Rhieni

Mae'r adran ganlynol yn disgrifio'r ffordd y disgwylir i Awdurdodau Lleol ddarparu'r Cynnig Gofal Plant, a rhai o'r prosesau y gall Awdurdodau Lleol eu defnyddio i gefnogi hyn.

### PROSESAU RHIENI

#### Gwiriad Cymhwystra Cyn Ymgeisio

158. Gallai Awdurdodau Gweithredu sefydlu proses sgrinio cyn ymgeisio, er mwyn cynnal gwiriad sylfaenol cychwynnol o gymhwystra rhiant a phlentyn cyn i gais llawn gael ei gyflwyno. Dylai’r broses sgrinio cyn ymgeisio ystyried cod post y rhiant/rhieni sy’n ymgeisio, gwirio bod rhieni, llys-rieni a phartneriaid cyd-fyw hirdymor yn yr aelwyd yn gallu profi eu cymhwystra un ai fel rhiant sy’n gweithio neu fel rhiant mewn addysg neu hyfforddiant, a bod y plentyn o oedran cymwys. Byddai proses sgrinio o’r fath yn gwneud y system ymgeisio’n effeithlon, gan ostwng nifer y ceisiadau a geir gan deuluoedd anghymwys.

159. Fel arall, gallai Awdurdodau Lleol gyhoeddi’r meini prawf cymhwystra er mwyn i rieni/gofalwyr allu gwirio’u cymhwystra eu hunain yn gyflym cyn cyflwyno cais llawn.

160. Dylai cymhwystra rhieni i dderbyn y Cynnig ddigwydd drwy hunanddatganiad naill ai ar ffurflen gais ar ffurf copi caled a ddarperir gan yr Awdurdod Gweithredu neu drwy system ymgeisio ar-lein.

161. Bydd rhieni sy’n ymgeisio am y Cynnig, neu sy’n cael y Cynnig, yn cael eu hysbysu y bydd angen iddynt ddangos tystiolaeth ddogfennol eu bod yn bodloni unrhyw feini prawf, neu’r holl feini prawf, ar y ffurflen gais.

#### Y Broses Ymgeisio

162. Mae angen i Awdurdodau Gweithredu sefydlu a rheoli proses ar gyfer ymgeisio, boed yn electronig ar-lein, neu ar gopi papur, neu drwy gyfuniad o’r ddau. Mae Llywodraeth Cymru wedi hysbysu'r Awdurdodau Gweithredu ynghylch gwybodaeth y mae angen iddynt ei chynnwys yn y ffurflen gais, heb ei diwygio, er mwyn ei gwneud yn bosibl gwneud gwaith monitro a gwerthuso a fydd yn sail i’r Cynnig mwy hirdymor.

163. Pan fydd Awdurdod Gweithredu'n prosesu ac yn ymdrin â cheisiadau ar ran Awdurdod Ymgysylltu, rhaid ei wneud yn glir i'r rheini a'r gwarcheidwaid pwy fydd yn cadw'r wybodaeth a sut y caiff ei thrin.

164. Mater i bob Awdurdod Lleol yw penderfynu pryd y gall rhieni wneud cais am y

Cynnig.

165. Mae angen i Awdurdodau Gweithredu ddatblygu canllawiau i gyd-fynd â’r ffurflen gais sy’n nodi manylion y Cynnig. Cynghorir y dylai canllawiau o’r fath ymdrin â’r canlynol o leiaf:

- Manylion y Cynnig, gan gynnwys egluro bod y Cynnig yn gymysgedd o ddarpariaeth addysg gynnar a gofal plant, y gwahaniaeth rhwng y ddau a pha oriau fydd yn cael eu cynnig fel addysg gynnar a pha oriau fydd yn cael eu cynnig fel gofal plant;
- Esboniad o’r ffaith bod y Cynnig yn cynnwys oriau yn ystod 39 o wythnosau yn ystod y tymor (lle ceir rhaniad rhwng oriau addysg gynnar ac oriau gofal plant, hyd at gyfanswm o 30 awr yr wythnos) a 9 wythnos o ddarpariaeth adeg gwyliau (lle gellir hawlio 30 awr o ofal plant yr wythnos) ac mai dim ond am 48 o wythnosau y flwyddyn y mae cyllid y Cynnig ar gael;
- Manylion llawn y meini prawf cymhwystra, gan gynnwys manylion eithriadau ac ati;
- Eglurhad o’r broses ymgeisio ar gyfer elfen addysg gynnar ac elfen gofal plant y Cynnig, gan gynnwys beth sy’n digwydd yn ystod bob cam, a beth fydd angen iddynt ei wneud o ran darparwyr ac ati;
- Eglurhad ei bod yn bosibl na fydd y diwrnodau a’r oriau a nodir yn y ffurflen gais yn cael eu bodloni gan y darparwr a ddewiswyd ganddynt a’i bod yn bosibl na fydd y darparwr hwnnw'n cytuno i gymryd rhan yn y Cynnig o gwbl, a beth ddylai ddigwydd dan amgylchiadau o’r fath;
- Eglurhad ynghylch pwy sy’n atebol am beth mewn perthynas â chontract rhwng rhiant a darparwr, hy wrth lofnodi contract gyda darparwr mae’r rhiant yn ymrwymo i gontract cyfreithiol, yn annibynnol ar yr awdurdod;
- Eglurhad mai cyfrifoldeb y rhiant yw talu am unrhyw oriau y mae'r plentyn dan ofal darparwr gofal plant, y tu allan i derfynau'r Cynnig neu uwchlaw’r terfynau hynny.

166. Ni ddylai darparwyr gefnogi rhieni gyda'u ceisiadau, oni bai eu bod o dan amgylchiadau eithriadol. Os oes angen help ar rieni i gwblhau eu cais ee oherwydd eu bod wedi’u hallgáu’n ddigidol, yna dylent gysylltu â’u Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd neu eu cyswllt yn yr Awdurdod Lleol i gael help.

167. Ni ddylai darparwyr fod yn helpu rhieni â’u ceisiadau ac eithrio o dan amgylchiadau eithriadol lle bydd yr Awdurdod Lleol a’r darparwr o’r farn bod risg uchel na fydd rhieni yn cael gofal plant wedi’i gyllido gan y Llywodraeth os na chânt gymorth o’r fath. O dan yr amgylchiadau hyn, dylai’r Awdurdod Lleol fodloni ei hun bod mesurau priodol ar waith i liniaru achosion posibl o dwyll a thor-data. Gallai’r rhain gynnwys y canlynol:

- Dylai’r Awdurdod Lleol fodloni ei hun fod camau digonol ar waith gan y darparwr o ran ei ddyletswyddau mewn perthynas ag ymdrin â gwybodaeth bersonol (GDPR);

- Pan fo darparwr wedi helpu i gwblhau'r cais, rhaid anfon y cais at y rhiant er mwyn i'r rhiant gadarnhau bod yr holl wybodaeth yn y cais yn gywir;

- Rhaid i'r rhiant gyflwyno'r cais i'r Awdurdod Lleol (ee o gyfeiriad e-bost y rhiant);

- Dylai'r Awdurdod Lleol anfon hysbysiad o gymhwystra yn uniongyrchol at y rhiant.

**Gwirio Cymhwystra**

168. Mae angen i Awdurdodau Gweithredu wirio cymhwystra'r holl geisiadau. Er y bydd ymgeiswyr yn llofnodi ymwadiad i gadarnhau eu bod yn bodloni'r meini prawf gofynnol ar gyfer cymhwystra, disgwylir y bydd pob cais yn cael ei ategu hefyd gan dystiolaeth ddogfennol o gymhwystra. Gallai hyn gynnwys:

- prawf bod ymgeisydd yn byw yng Nghymru, hy y cod post i gael ei wirio trwy ei gymharu â data ynghylch y dreth gyngor;
- prawf o enillion, i ddangos bod pob rhiant yn ennill cyflog wythnosol sy'n cyfateb i 16 awr o leiaf ar yr isafswm cyflog ee gwerth 3 mis o slipiau cyflog;
- prawf o gontract cyflogaeth i sicrhau cymhwystra dros gyfnod hir, neu gytundeb gan yr ymgeisydd sy'n caniatáu i'r Awdurdod Gweithredu gysylltu â'r cyflogwr yn uniongyrchol i wirio manylion contract cyflogaeth,
- prawf o fod wedi cofrestru ar gwrs addysg neu hyfforddiant addysg uwch (AU) neu addysg bellach (AB) perthnasol.

169. Mae angen ystyried hefyd sut y gall ymgeiswyr sydd newydd symud i fyw ddarparu prawf o'u cyfeiriad, hy os nad ydynt wedi'u cofrestru ar gyfer y dreth gyngor eto.

170. Byddai rhiant sydd newydd ddod yn hunangyflogedig wedi'i eithrio o'r meini prawf enillion am y 12 mis cyntaf ar ôl sefydlu'r busnes newydd, ond dylid gofyn iddo ddarparu tystiolaeth bod y busnes hwnnw wedi'i sefydlu. Gallai hyn gynnwys y canlynol, er enghraifft:

  - darparu tystiolaeth gan asiant (ee gallai ei gyfrifydd gadarnhau fod ei fusnes wedi'i sefydlu a'r incwm tebygol ar gyfer y flwyddyn dreth ddilynol);
  - darparu cynllun busnes, gan gynnwys tystiolaeth ei fod newydd gaffael gweithle/safle neu os yw ei fusnes wedi bod yn gweithredu ers digon o amser, copïau o anfonebau, dyfynbrisiau neu dendrau ag unrhyw wybodaeth adnabyddadwy bersonol wedi'i dileu; neu
  - eu Cyfeirnod Treth Unigryw (UTR).

171. Byddai angen i riant hunangyflogedig sefydledig ddarparu ei Gyfeirnod Treth Unigryw a manylion am ei enillion dros y 12 mis diwethaf fel y'u nodwyd yn ei ffurflen dreth hunanasesu.

172. Os na fydd ffurflen dreth hunanasesu ar gael, gallai’r Awdurdod Lleol ofyn am gadarnhad gan gyfrifydd o’r incwm tebygol dros y flwyddyn dreth ddilynol. Lle na fydd yr enillion yn bodloni’r trothwy, byddai angen datganiad o’r incwm a ragwelir yn ystod y cyfnod hawl gan ei gyfrifydd/asiant.

173. Dylai rhiant mewn addysg a hyfforddiant ddarparu tystiolaeth o gofrestriad ffurfiol ar gwrs AU neu AB perthnasol. Os yw rhiant wedi gwneud cais ac wedi cael cynnig lle ar gwrs AU neu AB perthnasol, ond nad yw wedi gallu cofrestru eto, byddai angen iddo ddarparu tystiolaeth o gynnig ffurfiol o le ar gwrs. Yn y ddau achos, dylai'r dystiolaeth nodi:

- dyddiad dechrau'r cwrs; a
- dyddiad gorffen y cwrs a/neu hyd y cwrs mewn wythnosau; a
- enw'r sefydliad sy'n darparu'r cwrs.

174. O ran y plentyn, dylid darparu tystiolaeth sy'n profi bod y plentyn o’r oedran cywir a bod gan y person sy'n gwneud cais am y plentyn gyfrifoldeb rhiant drosto. Yn ddelfrydol, dylai hyn fod ar ffurf y dystysgrif geni hir a fyddai'n dangos yr holl feini prawf uchod. Yn absenoldeb tystysgrif geni hir, gellir derbyn y dystysgrif geni fer ynghyd â thystiolaeth arall sy'n dangos cyfrifoldeb rhiant, er enghraifft:

- cofnodion iechyd y plentyn (ee y llyfr a gyhoeddwyd gan yr ymwelydd iechyd i gofnodi brechiadau ac ati);
- gohebiaeth a gyfeiriwyd atynt ar ran y plentyn gan weithiwr iechyd proffesiynol arall ee meddyg teulu/ysbyty/deintydd;
- gohebiaeth a gyfeiriwyd atynt ar ran y plentyn gan yr Awdurdod Lleol ee yr adran addysg gynnar mewn perthynas â darpariaeth feithrin y cyfnod sylfaen;
- llythyr yn cadarnhau eu hawl i fudd-dal plant;
- unrhyw lythyr ffurfiol arall sy'n darparu tystiolaeth bod ganddynt gyfrifoldeb dros y plentyn.

Dylai rhieni maeth neu rieni mabwysiadu neu warcheidwaid cyfreithiol allu dangos cyfrifoldeb rhiant drwy ohebiaeth ysgrifenedig gan awdurdod perthnasol neu ddogfen gyfreithiol sy'n cadarnhau mai nhw sy'n gyfrifol am y plentyn.

**Hysbysu Rhieni**

175. Rhaid i Awdurdodau Gweithredu roi system ar waith i hysbysu rhieni ynghylch canlyniad eu cais a ph'un a ganfuwyd eu bod yn gymwys ai peidio. Rhaid i'r Awdurdodau Gweithredu ystyried amseroldeb y cyfathrebiad hwnnw a sut y bydd yn digwydd, yn electronig trwy e-bost ynteu ar ffurf copi caled trwy lythyr.

176. Yn ogystal â phenderfyniad, mae angen gwybodaeth ar rieni am y canlynol hefyd:

- y broses ar gyfer sicrhau darparwr, gan gynnwys y broses os nad yw darparwr y byddant yn cysylltu ag ef wedi'i gofrestru'n barod ar gyfer y Cynnig, hy cyngor ynghylch ble y gall darparwr gael gwybodaeth am gofrestru;

- y broses os na fydd darparwr yn dymuno cymryd rhan yn y Cynnig;

- beth sy'n digwydd unwaith y mae darparwr wedi cytuno i gynnig lle ar gyfer gofal plant o dan y Cynnig;

- manylion y costau sydd wedi'u cynnwys yn y gyfradd, h.y. nad yw'r gyfradd yn cynnwys costau teithio, gweinyddu a ffioedd cadw etc;

- manylion cwmpas y Cynnig, hy bydd yn ariannu gofal plant am 48 wythnos y flwyddyn, sy'n cynnwys 39 o wythnosau yn ystod y tymor a 9 o wythnosau gwyliau, gan gynnwys gwybodaeth am sut y caiff wythnosau gwyliau eu dyrannu;

- manylion y gwahaniaethau rhwng contract safonol gyda'r darparwr a chontract ar gyfer y Cynnig. Dylai fod yn glir bod y rhiant, wrth gytuno i gymryd lle gofal plant, yn ymrwymo i gontract preifat gyda'r darparwr y mae'n atebol amdano.

177. Ar ôl i'r cais gael ei gymeradwyo, mae rhieni'n rhydd i fanteisio ar elfen gofal plant y Cynnig o ba bwynt bynnag a ddymunant yn ystod y tymor, cyn belled â bod eu plentyn yn gymwys ers dechrau'r tymor hwnnw, neu'n gynharach. . Fodd bynnag, rhaid i'r pwynt hwn fod ar ôl y dyddiad y cymeradwywyd eu cais. Os na wnaeth rhiant gais am y Cynnig, ond ei fod wedi bod yn gymwys i fanteisio arno, ni all hawlio arian oddi wrth Lywodraeth Cymru na'i Awdurdod Lleol am y gofal plant y gallai fod wedi ei gael cyn iddo ymuno â'r Cynnig.

178. Dylai fod yn glir i rieni mai cyfrifoldeb y rhiant yw sicrhau gofal plant sy'n diwallu anghenion unigol y rhieni, ac y dylid ceisio hyn o'r ddarpariaeth bresennol. Fodd bynnag, dylai'r Awdurdodau Gweithredu wneud rhieni'n ymwybodol o'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd lleol sy'n gallu darparu gwybodaeth ynghylch pa ddarpariaeth sydd ar gael.

**Ailwirio Cymhwystra**

179. Dylai Awdurdodau Gweithredu ofyn i ymgeiswyr ar gyfer y Cynnig, boed yn eu hardal nhw neu yn ardal yr awdurdod ymgysylltu sy'n bartner iddynt, gadarnhau a ydynt yn parhau i fod yn gymwys ai peidio, bob tymor, a chadw at y canllawiau ar gyfnodau esemptio.

180. Bydd angen i'r Awdurdodau Gweithredu ddatblygu a rheoli system i gadarnhau cymhwystra parhaus rhieni sy'n defnyddio'r Cynnig. Bydd angen i'r awdurdod fod yn fodlon bod unrhyw system/proses yn bodloni gofynion diwydrwydd dyladwy'r Awdurdod Lleol, gofynion cyfreithiau diogelu data, gofynion llywodraethu mewnol a gofynion archwilio.

181. Ni ddisgwylir y bydd angen i ymgeiswyr ailgyflwyno ceisiadau llawn fel rhan o’r broses hon, ac ni fydd disgwyl i’r holl ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth ddogfennol i ategu eu cymhwystra parhaus.

182. Fodd bynnag, disgwylir y bydd hapwiriadau’n cael eu cynnal ar o leiaf 20% o’r rhieni hynny sy’n ailgadarnhau eu cymhwystra, lle gofynnir am dystiolaeth bellach i brofi eu bod yn parhau i fod yn gymwys. Mae hyn er mwyn deall a monitro a yw awdurdodau gweithredu'n cael eu hysbysu am newidiadau i amgylchiadau rhieni.

**Adolygiadau ac Apeliadau**

183. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl bod gan yr Awdurdodau Gweithredu brosesau ar waith i adolygu penderfyniadau a wneir ar geisiadau ac i ymdrin ag unrhyw apeliadau yn erbyn unrhyw benderfyniad ar gais.

184. Bydd angen i'r Awdurdodau Gweithredu gytuno ar broses ar gyfer ymdrin ag unrhyw apeliadau yn erbyn penderfyniad ynglŷn â chais. Bydd angen i unrhyw broses ac unrhyw benderfyniad dilynol ddigwydd ar lefel swyddogion ac ni ddylai gynnwys y cabinet nac unrhyw swyddog arall a etholwyd yn ddemocrataidd.

185. Dylai'r Awdurdodau Gweithredu gyfeirio at y canllawiau hyn wrth wneud penderfyniadau ynghylch adolygiadau ac apeliadau. Fodd bynnag, os ceir apêl neu her mewn perthynas â mater nad yw wedi’i gynnwys yn y canllawiau, dylai'r Awdurdodau Gweithredu gyfeirio’r apêl at Lywodraeth Cymru i gael cyngor ynghylch y polisi.

186. Mae disgwyl i'r Awdurdodau Gweithredu hysbysu Llywodraeth Cymru a’i hawdurdodau ymgysylltu partner am unrhyw apeladau a wneir. Dim ond y sail i’r apêl, y broses apelio a’r canlyniad fydd yn cael eu rhannu. Ni fydd unrhyw wybodaeth bersonol yn cael ei rhannu.

187. Os bydd adolygiad/apêl rhiant yn llwyddiannus, mae’n bosibl y bydd y rhiant yn gymwys i gael taliad am y swm o gyllid y byddai wedi bod ganddo’r hawl i’w gael gan y Llywodraeth pe byddai ei gais wedi cael ei gymeradwyo pan wnaeth gais am y tro cyntaf. Dim ond pan fydd y rhiant wedi talu costau gofal plant gyda darparwr cofrestredig y gwneir taliad. Disgwylir i’r Awdurdodau Gweithredu roi gwybod i Lywodraeth Cymru am unrhyw achosion o’r math hwn o daliad cyn gwneud y taliad.

188. Gall rhiant fod yn gymwys i gael gofal plant wedi'i ariannu gan y Llywodraeth na chafodd o dan yr amgylchiadau canlynol:

- bu oedi afresymol gan Awdurdod Lleol wrth benderfynu a yw rhiant yn gymwys i gael y Cynnig, **er gwaethaf y ffaith bod y rhiant wedi darparu'r holl ddogfennaeth angenrheidiol**, ac o ganlyniad, bu'n rhaid i'r rhiant dalu costau gofal plant cofrestredig yn ystod y cyfnod hwn; ac/neu
- bu gwall technegol neu gwall "proses" yn ystod cyfnod ymgeisio'r rhiant ac o ganlyniad, ni chofnodwyd y cais; ac/neu
- bydd rhiant yn ennill ei apêl yn erbyn penderfyniad negyddol, a'i fod wedi talu costau gofal plant cofrestredig yn ystod y cyfnod hwn.

189. Dim ond hyd at y swm o gyllid gan y Llywodraeth y byddai wedi bod ganddynt yr hawl i'w gael pe bai eu cais wedi cael ei gymeradwyo pan wnaethant gais am y tro cyntaf y dylid ad-dalu rhieni am gostau gofal plant cofrestredig.

190. Nid ad-delir cost gofal plant anghofrestredig (gan gynnwys nanis neu warchodwyr plant heb eu cofrestru) na gofal plant anffurfiol (ee ffrindiau a theulu) i rieni ac nid ad-delir costau sy'n ychwanegol at y cyfanswm cyllid y byddai wedi bod ganddynt yr hawl i'w gael gan y Llywodraeth.

191. Lle bydd rhiant wedi talu mwy na'r gyfradd gyfredol fesul awr ar gyfer y Cynnig am ofal plant cofrestredig, dim ond y gyfradd gyfredol fesul awr ar gyfer y Cynnig y dylai'r Awdurdodau Gweithredu ei thalu.

192. Ni thelir unrhyw arian ychwanegol i'r rhiant i dalu costau bwyd, byrbrydau na thrafnidiaeth yn ystod y cyfnod hwnnw gan nad yw'r Cynnig yn talu costau elfennau o'r fath.

193. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r Awdurdodau Gweithredu ddefnyddio eu systemau a'u prosesau eu hunain i hwyluso taliadau i rieni ac i benderfynu ar y dull mwyaf effeithlon ar sail achosion unigol.

### Symud rhwng ardaloedd Awdurdodau Lleol

194. Pan fydd teulu sy'n manteisio ar y Cynnig Gofal Plant yn symud i awdurdod newydd ac yn dymuno parhau i gael mynediad i'r Cynnig gyda darparwr newydd sydd wedi'i leoli yn yr awdurdod newydd, bydd angen i'r rhiant gofrestru ar gyfer y Cynnig drwy ei Awdurdod Gweithredu newydd. Dylai'r awdurdod newydd gynnal yr ailwiriadau angenrheidiol i gadarnhau cymhwystra.

## Adran 12 – Darparu'r Cynnig – Prosesau Darparwyr

Mae'r adran ganlynol yn disgrifio'r ffordd y disgwylir i Awdurdodau Lleol ddarparu'r Cynnig Gofal Plant i Gymru, a rhai o'r prosesau y gall Awdurdodau Lleol eu defnyddio i gefnogi hyn o ran darparwyr gofal plant.

**Cofrestru Darparwyr**

195. Mae angen i ddarparwyr gofrestru i ddarparu'r Cynnig gyda'r awdurdod perthnasol ac, wrth wneud hynny, cytuno â thelerau ac amodau'r Cynnig.

196. Mae angen i'r Awdurdodau Gweithredu sefydlu proses ar gyfer cofrestru darparwyr a dylent roi cyhoeddusrwydd i'r broses honno trwy eu gwefannau Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd/Awdurdodau Lleol a gwefannau'r Awdurdodau Ymgysylltu y maent yn cydweithio â nhw.

197. I gofrestru, rhaid i ddarparwr fod wedi'i gofrestru naill ai gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) neu Ofsted yn Lloegr. Dylai Awdurdodau Lleol ailwirio bod yr holl ddarparwyr sy'n darparu'r Cynnig wedi'u cofrestru gydag AGC (neu OFSTED) yn rheolaidd, bob mis yn ddelfrydol, drwy wirio'r wybodaeth y mae AGC yn ei darparu i'r Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd.

198. Rhaid i Awdurdodau Gweithredu sefydlu proses ar gyfer cadarnhau gyda'r darparwr faint o oriau a ariennir gan y Llywodraeth ar gyfer pob plentyn unigol. Awgrymir, fel rhan o'r broses hon, ei bod yn ofynnol i ddarparwr lenwi ffurflen yn cadarnhau cais plentyn am ofal plant ac yn cynnwys manylion am:

- rhif Cynnig Gofal Plant unigryw y plentyn;
- nifer yr oriau a'r diwrnodau gofal plant y mae'r plentyn wedi'i gofrestru ar ei gyfer;
- y patrwm a'r dyddiau y gwneir cais am yr oriau hyn;
- nifer yr oriau o ofal plant y disgwylir eu cyllido o dan y Cynnig Gofal Plant.

199. Bydd angen i'r Awdurdod Gweithredu gynnal ymarfer cysoni i sicrhau bod nifer yr oriau a ariennir gan y Llywodraeth y mae'r rhiant yn eu hawlio yn cyd-fynd â'r rheini ar ei gais ac y gellir eu bodloni o fewn eu hawl.

**Contract y Darparwr**

200. Cyn gallu darparu gofal plant o dan y Cynnig bydd angen i ddarparwr fod wedi cofrestru yn gyntaf gyda'r Awdurdod Gweithredu ar gyfer taliadau a bydd angen iddo fod wedi cytuno â thelerau ac amodau'r Cynnig, fel y nodir yng nghontract y darparwr.

201. Y contract hwnnw fydd yn diffinio ac yn rheoli'r berthynas rhwng yr Awdurdod Lleol

a’r darparwr, a bydd yn darparu’r sail gyfreithiol i’r berthynas. Bydd y contract yn nodi cyfrifoldebau a rhwymedigaethau o ran taliadau ac ad-hawliadau. Argymhellir felly bod cydweithwyr mewnol perthnasol yn cael eu cynnwys yn y broses o lunio’r contract gan gynnwys, ymhlith cydweithwyr eraill, cydweithwyr yn y gwasanaethau cyfreithiol ac archwilio, er mwyn sicrhau bod gofynion cyfreithiol, gofynion cyffredinol o ran data a diwydrwydd dyladwy ar gyfer yr Awdurdod Lleol unigol yn cael eu cyflawni.

202. Fel lleiafswm, cynghorir bod y canlynol yn cael eu cymryd i ystyriaeth wrth lunio contract darparwr:

- Manylion mewn perthynas â thaliadau, y broses a rheoleidd-dra ac ati;
- Gofynion monitro a gwerthuso – manylion y gofynion adrodd; lefel ac amseriad, a gofynion mewn perthynas â’r contractwr annibynnol a gafodd ei gaffael i werthuso’r Cynnig. Dylai fod yn eglur bod darparu’r data’n un o ragofynion cyfranogi yn y Cynnig ac y gallai methiant i ddarparu’r wybodaeth ofynnol arwain at weithredu yn yr un modd ag unrhyw achos arall o dorri telerau ac amodau’r Cynnig;
- Manylion atebolrwydd mewn perthynas â gofal y plentyn ac unrhyw ofynion megis asesiadau neu becynnau cymorth iechyd a diogelwch y mae’n ofynnol i ddarparwr eu cwblhau;
- Manylion y cyfrifoldebau o ran hysbysu’r parti arall os bydd un parti’n dod yn ymwybodol o newid yn amgylchiadau rhiant sy’n effeithio ar ei gymhwystra;
- Manylion mewn perthynas â thaliadau os bydd rhiant yn mynd y tu hwnt i’r cyfnod esemptio dros dro o wyth wythnos ac yn parhau i ddefnyddio’r gofal plant;
- Y broses os canfyddir ymddygiad twyllodrus ar ran y darparwr.

203. Efallai y bydd Awdurdod Lleol yn dymuno gofyn am y canlynol hefyd o ran sicrwydd:

- Tystiolaeth ddigonol o hyfywedd ariannol y darparwr, hy prawf o sefyllfa ariannol;
- Copi o’r contract rhwng y rhiant a’r darparwr.

**Y Broses ar gyfer Talu Darparwyr**

204. Bydd angen i ddarparwyr gofrestru fel cyflenwr gydag Awdurdod Gweithredu er mwyn gallu hawlio am ofal plant a ddarperir o dan y Cynnig.

205. Yn ogystal, bydd angen i'r Awdurdodau Gweithredu ddatblygu a rheoli system/proses a fydd yn caniatáu iddynt dalu darparwyr yn fisol ymlaen llaw (lle bo'n bosibl) a chasglu gwybodaeth at ddibenion monitro a gwerthuso ar gyfer y mis blaenorol.

206. Rydym yn cynghori bod darparwyr yn cael eu talu ymlaen llaw, lle bynnag y bo modd, ar gyfer yr oriau o ofal plant a ddarperir trwy'r Cynnig. Dylai gweithdrefnau diwydrwydd dyladwy effeithiol fod ar waith a dylid cynnal gwiriadau priodol er mwyn diogelu'r cyllid rhag twyll a lleihau'r cyfle i gymryd rhan mewn gweithgarwch twyllodrus.

207. Os nad yw systemau archwilio mewnol yr Awdurdod Lleol yn caniatáu i daliadau gael eu gwneud ymlaen llaw, dylid talu ar ffurf ôl-daliadau cyn gynted â phosibl ar ôl i'r lleoliad gofal plant ddarparu'r oriau hynny drwy'r Cynnig.

208. Ni ddylai rhieni dalu am oriau gofal plant o dan y Cynnig, gyda darparwyr yn eu had-dalu ar ôl cael taliad gan yr Awdurdod Gweithredu. Dylai hyn gael ei adlewyrchu yng nghontract y darparwr.

**Y Broses Adhawlio**

209. Yr Awdurdodau Gweithredu yw’r corff atebol mewn perthynas â’r Grant Gofal Plant sy’n cyllido’r gofal plant a ddarperir o dan y Cynnig, a thaliadau i ddarparwyr. Mae'r Awdurdodau Gweithredu'n gyfrifol am sicrhau bod y grant hwn yn cael ei ddefnyddio at ddibenion cymeradwy a dylent gymryd camau priodol i ddiogelu’r cyllid a ddarperir trwy’r grant.

210. Amlinellir atebolrwydd am dwyll yn y llythyr cynnig grant y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi i Awdurdodau Lleol.

211. Os canfyddir nad yw arian y grant gofal plant wedi cael ei ddefnyddio at ddibenion cymeradwy, lle mae rhiant nad yw’n gymwys/nad yw’n gymwys mwyach yn hawlio cyllid gan y Llywodraeth o dan y Cynnig neu lle mae darparwr yn hawlio cyllid gan y Llywodraeth o dan y Cynnig yn anghywir neu’n amhriodol, cyfrifoldeb yr Awdurdod Gweithredu yw adfer y cyllid hwnnw.

212. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Awdurdodau Gweithredu gymryd camau mewn perthynas ag unrhyw arian a weinyddwyd yn anghywir/a hawliwyd trwy dwyll o dan y Cynnig, er y dylid bob amser ystyried unrhyw gamau i’w cymryd ar sail amgylchiadau a rhinweddau’r achos unigol a dylid bob amser hysbysu Llywodraeth Cymru yn ddi-oed.

213. Dylai Awdurdodau Lleol weithredu egwyddorion dim goddefgarwch mewn perthynas â thwyll. Gan ddibynnu ar rinweddau pob achos, gall yr awdurdodau gweithredu ystyried y camau canlynol:
- cyhoeddi rhybudd – lle y bu camddealltwriaeth amlwg ac nad oedd y budd neu’r golled yn sylweddol;
- adennill y golled;
- mynd ar drywydd erlyniad lle mae’r amgylchiadau yn gwarantu hynny

(byddai angen i'r gwerth gyfiawnhau erlyniad a'r costau cysylltiedig posibl). Byddai erlyniad yn digwydd drwy gyfeirio'r achos at yr heddlu; o dan amgylchiadau priodol, gellid gwneud hyn ar y cyd â chamau gan yr Awdurdod Lleol i geisio adennill y colledion yn y llysoedd sifil;
- gwahardd unrhyw ddefnydd o'r Cynnig Gofal Plant neu geisiadau ar ei gyfer yn y dyfodol.

214. Dylai Awdurdodau Lleol ystyried camau i adennill costau cyn mynd ar drywydd erlyniad.

### Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi

215. Cyhoeddwyd y Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi ym mis Mawrth 2017. Mae'r cod yn rhwymo sefydliadau yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector i set o gamau gweithredu sy'n ymdrin ag arferion cyflogaeth anghyfreithlon ac annheg.

216. Mae disgwyl i'r holl sefydliadau yn y sector cyhoeddus, busnesau a sefydliadau yn y trydydd sector sy'n derbyn cyllid gan y sector cyhoeddus, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol trwy grantiau neu gontractau, ymrwymo i'r Cod. Anogir sefydliadau eraill yng Nghymru i ymrwymo iddo.

217. O ran y Cynnig, ystyrir y bydd disgwyl i'r Awdurdodau Lleol ymrwymo i'r Cod. Fodd bynnag, nid oes gofyniad i ddarparwyr gofal plant wneud yr un peth. Fel busnesau, byddai darparwyr gofal plant yn cael eu hannog i ymrwymo i'r cod fel arfer da, ond nid yw'n un o'r gofynion ar gyfer darparu gofal plant o dan y Cynnig. Nid ystyrir bod contract gofal plant o dan y Cynnig yn rhan o gadwyn gyflenwi'r sector cyhoeddus gan mai'r rhiant a'r darparwr sydd yn trafod ac yn cytuno ar y contract gofal plant

## Adran 13 - Diwydrwydd dyladwy, archwilio a thrin data

Mae'r adran ganlynol yn nodi'r hyn a ddisgwylir gan Awdurdodau Lleol mewn perthynas â diwydrwydd dyladwy, archwilio a chasglu data.

### Diwydrwydd Dyladwy

218. Mae disgwyl i'r Awdurdod Gweithredu, fel y corff sy'n atebol am ddarparu'r Cynnig trwy'r Grant Gofal Plant, sefydlu systemau a gweithdrefnau mewnol a chymryd camau priodol i ddiogelu'r cyllid a ddarparwyd trwy'r Grant Gofal Plant, sy'n eu hargyhoeddi hwy a Llywodraeth Cymru o ran diwydrwydd dyladwy.

### Gofynion Archwilio

219. Mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl i'r Awdurdodau Gweithredu sefydlu systemau a gweithdrefnau ar gyfer gweinyddu'r Cynnig sy'n ateb gofynion archwilio yr awdurdod unigol.

### Casglu Data

220. Mae angen atodi hysbysiadau preifatrwydd gyda ffurflenni cais sy'n nodi pa ddata fydd yn cael eu casglu a pham; â phwy fydd y data'n cael eu rhannu; sut byddant yn cael eu defnyddio; a pha mor hir y byddant yn cael eu cadw.

221. Ar gyfer y Cynnig hwn, ac o dan delerau'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR), Llywodraeth Cymru yw'r Rheolwr Data a'r Awdurdodau Gweithredu yw'r Proseswyr Data. Mae'r Awdurdodau Gweithredu'n casglu data perthnasol ar ran Llywodraeth Cymru er mwyn darparu'r Cynnig ac yn trosglwyddo rhywfaint o'r data hynny i Lywodraeth Cymru at ddibenion monitro a gwerthuso.

222. Mae Llywodraeth Cymru wedi paratoi hysbysiad preifatrwydd sy'n nodi sut y caiff data a rennir â Llywodraeth Cymru a'i chontractwyr eu prosesu ac mae wedi rhannu'r hysbysiad hwn â'r Awdurdodau Lleol. Mae'r hysbysiad hwn yn cydymffurfio â thelerau gofynion GDPR a rhaid ei gyhoeddi ochr yn ochr â hysbysiad preifatrwydd yr Awdurdodau Gweithredu eu hunain ar gyfer y Cynnig.

223. Byddai disgwyl i Awdurdodau Gweithredu ddatblygu a chyhoeddi eu hysbysiad preifatrwydd eu hunain yn nodi sut y caiff y data personol hynny, gan gynnwys data na chânt eu rhannu â Llywodraeth Cymru, eu prosesu.

224. Rydym yn cydnabod efallai y bydd rhai Awdurdodau Lleol yn dewis cyfuno'r broses casglu data ar gyfer elfen gofal plant y Cynnig ar gyfer Llywodraeth Cymru gyda'r

broses o gasglu data angenrheidiol at ddibenion darparu addysg gynnar. Os yw'r Awdurdodau Lleol yn dewis gwneud hynny, bydd angen iddynt sicrhau bod ganddynt y pwerau cyfreithiol angenrheidiol i gyfuno'r setiau data hynny a hysbysiad preifatrwydd sy'n cydymffurfio â GDPR ar gyfer casglu'r data hyn. Rhaid i Awdurdodau Lleol wahaniaethu'n glir rhwng y data a gesglir ar ran Llywodraeth Cymru a'r data a gesglir ar ran yr Awdurdod Lleol. Cynghorir bod y datganiadau hyn yn cael eu gwirio gan y staff perthnasol o fewn yr awdurdod er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r gyfraith.

**Rheoli Gwybodaeth**

225. Rhaid i Awdurdodau Gweithredu reoli cronfa ddata i storio a phrosesu gwybodaeth o geisiadau. Mae angen i'r gronfa ddata honno greu rhif adnabod unigryw sy'n cael ei aseinio i bob plentyn cymwys o dan y Cynnig. Bydd y rhif adnabod unigryw hwnnw yn helpu i fapio plentyn trwy'r system.

226. Rhaid i'r gronfa ddata ddal gwybodaeth benodol sy'n ofynnol ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â monitro a gwerthuso'r Cynnig. Bydd angen i'r wybodaeth honno gael ei storio mewn ffordd sy'n ei gwneud yn bosibl llunio adroddiadau misol a thymhorol. Ceir manylion pellach ynghylch Gwerthuso a Monitro yn Adran 14.

227. Mae angen i'r Awdurdodau Gweithredu ystyried sut y bydd gwybodaeth a geir trwy'r broses ymgeisio'n cael ei thrin, sut y bydd yn dod i law, sut y bydd yn cael ei storio ac am faint o amser y bydd yr wybodaeth yn cael ei chadw. Ni ddylid storio gwybodaeth am gyfnod hwy nag sydd angen i alluogi person i barhau i ddefnyddio'r Cynnig tra bônt yn gymwys i wneud hynny neu i werthuso eu cyfranogiad. Pan na fydd y Cynnig ar gael i unigolyn, dylai ei ddata gael eu dileu. Dylid nodi hyn yn glir pan fydd y rhiant yn rhoi caniatâd i ddefnyddio ei ddata, ynghyd â manylion ynghylch sut i dynnu'r caniatâd hwnnw yn ôl.

228. Rhaid cydymffurfio â'r terfynau amser canlynol ar gyfer dinistrio data:

- *Rhieni (a phlant) sy'n defnyddio'r Cynnig Gofal Plant:*
    - Tystiolaeth o gymhwystra: o fewn 21 diwrnod o ddiwedd y tymor olaf y mae'r plentyn yn gymwys i gael y Cynnig Gofal Plant
    - Data arall: o fewn 18 mis o ddiwedd y tymor olaf y mae'r plentyn yn gymwys i gael y Cynnig Gofal Plant

- *Rhieni (a phlant) sy'n gwneud cais llwyddiannus ond nad ydynt yn defnyddio'r Cynnig Gofal Plant:*
    - O fewn 21 diwrnod o ddiwedd y tymor olaf y mae'r plentyn yn gymwys i gael y Cynnig Gofal Plant

- *Rhieni (a phlant) sy'n gwneud cais aflwyddiannus:*

- O fewn 21 diwrnod naill ai (i) o ddiwedd y cyfnod a ganiateir ar gyfer cyflwyno apêl, neu (ii) o ddiwedd y broses apelio ffurfiol, os cyflwynir apêl o’r fath.

- *Darparwyr sydd wedi’u cofrestru i ddarparu’r Cynnig Gofal Plant:*
  - O fewn 18 mis ar ôl i’r darparwr ddadgofrestru ar gyfer darparu’r Cynnig Gofal Plant

229. Rhaid i'r broses rheoli gwybodaeth gydymffurfio â chyfreithiau ac amodau diogelu data sydd wedi'u hamlinellu yn Atodlen 6 o'r llythyr cynnig grant sy'n nodi gofynion y GDPR. Cynghorir bod cyngor yn cael ei geisio gan gydweithwyr mewnol perthnasol, hy Swyddogion Gwybodaeth Data neu Swyddogion Diogelu Data er mwyn sicrhau cydymffurfio â gofynion y GDPR.

## Adran 14 – Monitro a Gwerthuso

Mae'r adran ganlynol yn nodi'r hyn a ddisgwylir gan Awdurdodau Lleol i gefnogi'r gwaith o fonitro a gwerthuso'r Cynnig.

### Monitro

230. Bydd yn ofynnol i'r Awdurdodau Gweithredu gasglu data penodol ac adrodd arno wrth Lywodraeth Cymru a phartïon eraill sydd wedi'u contractio bob hyn a hyn. Bydd gofyn i'r Awdurdodau Ymgysylltu ddarparu tystiolaeth ar gyfer gwerthuso'r Cynnig gofal plant i werthuswyr annibynnol trydydd parti.

231. Disgwylir i'r Awdurdodau Gweithredu ddefnyddio'r Llawlyfr Gwybodaeth Fonitro a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i gynhyrchu datganiadau data misol a thymhorol. Bydd nodiadau desg cynhwysfawr yn cael eu darparu hefyd i helpu'r Awdurdodau Gweithredu.

### Datganiadau data misol

232. Mae'r templed ar gyfer gwybodaeth monitro misol gan yr Awdurdodau Gweithredu yn rhoi gwybodaeth am geisiadau mewn perthynas â'r canlynol:

- Nifer y ceisiadau a ddaeth i law yn y mis diwethaf.
- Nifer y ceisiadau y barnwyd eu bod yn anghymwys yn y mis diwethaf.
- Cyfanswm nifer yr oriau a archebwyd yn y mis diwethaf.
- Nifer y diwrnodau y gwnaed cais am ofal plant ar eu cyfer.

233. Bydd ail adran y templed ar gyfer gwybodaeth monitro yn darparu gwybodaeth ddiweddaru am y defnydd o ofal plant mewn perthynas â'r canlynol:

- Nifer y plant sy'n cymryd rhan yn y Cynnig (cipolwg o nifer y plant sy'n defnyddio eu lle a chyllid yn ystod y mis blaenorol).
- Nifer yr oriau y mae plant wedi mynychu gofal plant.
- Nifer y plant sy'n cael gofal plant naill ai drwy gyfrwng y Gymraeg neu yn ddwyieithog.
- Nifer yr atgyfeiriadau AAA yn ystod y mis.
- Nifer yr atgyfeiriadau AAA llwyddiannus yn ystod y mis.
- Nifer y darparwyr sy'n cymryd rhan yn y Cynnig.
- Nifer y darparwyr sydd wedi ymrwymo i gymryd rhan.
- Nifer y ceisiadau y mis hwn lle mae'r rhiant wedi dod yn gymwys oherwydd ei fod mewn addysg
- Nifer y ceisiadau y mis hwn ar gyfer plant yr oedd eu rhieni am gael gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog adeg cyflwyno'r cais.

234. Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei hanfon i swyddogion Llywodraeth Cymru ddydd Llun gwaith olaf y mis.

**Datganiadau Data Tymhorol**

235. Ar ddiwedd pob tymor ysgol bydd angen i'r Awdurdodau Gweithredu gyflwyno set data sy’n cynnwys gwybodaeth am bob plentyn sy’n defnyddio’r Cynnig. Bydd yr wybodaeth yn cynnwys:

- Rhif adnabod unigryw’r plentyn.
- Dyddiad geni’r plentyn a'r rhieni.
- Cod post preswylfa'r plentyn.
- Awdurdod Lleol preswylfa'r plentyn.
- Rhif cofrestru AGC y darparwr sy'n darparu'r Cynnig i'r plentyn.
- Nifer y darparwyr gofal plant a ddefnyddiwyd.
- Lleoliad y ddarpariaeth a fynychwyd – Cymru/Lloegr.
- Ethnigrwydd y plentyn
- Ethnigrwydd rhieni.
- Statws y plentyn y mae angen cymorth ychwanegol arno.
- Iaith y ddarpariaeth.
- Nifer yr oriau o ofal plant a archebwyd ar gyfer y tymor, wedi'u rhannu fesul mis.
- Nifer yr oriau o ofal plant a ddefnyddiwyd ar gyfer y tymor, wedi'u rhannu fesul mis.
- Defnydd y plentyn o ddarpariaeth feithrin y Cyfnod Sylfaen.
- Defnydd y plentyn o ddarpariaeth Dechrau'n Deg.
- Y swm a wariwyd ar ofal plant bob mis cyn manteisio ar y Cynnig.
- A yw'r rhieni yn ei chael yn hawdd neu'n anodd i fforddio gofal plant.
- Nifer cyfartalog yr oriau y mae rhieni wedi adrodd eu bod yn defnyddio gofal plant ffurfiol bob wythnos.
- Nifer cyfartalog yr oriau y mae rhieni wedi adrodd eu bod yn defnyddio gofal plant anffurfiol bob wythnos.
- Cyflog pob rhiant (pan fo’n berthnasol)
- Nifer yr oriau y mae’r rhieni’n gweithio bob wythnos (pan fo’n berthnasol).

236. Anfonir yr wybodaeth hon fis ar ôl diwedd pob tymor.

**Gwerthuso**

237. Bydd gofyn i'r Awdurdodau Gweithredu a’r Awdurdodau Ymgysylltu ddarparu tystiolaeth ar gyfer gwerthuso'r Cynnig gofal plant at werthuswyr annibynnol trydydd parti fel y’u penodir gan Lywodraeth Cymru

238. Bydd disgwyl i'r Awdurdodau Lleol helpu'r contractiwr annibynnol i gysylltu â rhieni

a darparwyr gofal plant er mwyn cynnal y gwerthusiad.  Ni fydd disgwyl i'r Awdurdodau Lleol gynnal unrhyw arolygon ar eu rhan nac ateb unrhyw gwestiynau gan rieni neu ddarparwyr ynghylch y gwerthusiad.

## Adran 15 – Trefniadau ar gyfer darparu'r Cynnig o dan amgylchiadau eithriadol

Mae'r adran ganlynol yn nodi canllawiau ar fynediad i'r Cynnig a'i ddarpariaeth yn ystod amgylchiadau eithriadol fel tywydd garw neu bandemig byd-eang neu argyfwng iechyd tebyg.

Mater i Lywodraeth Cymru fyddai penderfynu a yw'r gweithdrefnau mewn perthynas â phandemig byd-eang neu argyfwng iechyd tebyg (ee Ebola, SARS ac ati) yn gymwys

**Tywydd Garw**

239. Lle bydd yn rhaid i leoliad gau o ganlyniad i dywydd garw, bydd yr Awdurdod Lleol yn gwneud penderfyniadau ar daliadau ar gyfer unrhyw ofal plant a drefnwyd o dan y Cynnig fesul achos unigol, gan gyfeirio at drefniadau yswiriant y lleoliad a'i weithdrefnau ar gyfer codi tâl ar unrhyw rieni sy'n defnyddio ei leoliad ar gyfer gofal plant nad yw'n rhan o'r Cynnig.

240. Gellir gwneud taliadau am ddarparwyr gofal plant yn seiliedig ar yr oriau a drefnwyd naill ai am bedair wythnos neu am y cyfnod y mae'r lleoliad ar gau, pa un bynnag fydd y byrraf o'r ddau. Mae'r cyfnod o bedair wythnos yn cyfateb i'r cyfnod hysbysu safonol mewn contractau rhwng rhieni a darparwr. Os na fydd y lleoliad yn ailagor ar ôl y cyfnod hwnnw, dylai'r cyllid o dan y Cynnig ddod i ben.

241. Mae'n ofynnol i awdurdodau gweithredu ddarparu ffurflen hawlio wedi'i chwblhau ar gyfer tywydd garw i Lywodraeth Cymru ar gyfer unrhyw hawliadau i leoliadau yr effeithiwyd arnynt gan dywydd garw. Dylid cyflwyno'r ffurflen hon yn ogystal â'r ffurflen halio fisol arferol ar gyfer y rheini nad effeithiwyd arnynt gan y tywydd garw.

242. Gall rhieni ddewis gwneud trefniadau gofal plant amgen yn ystod y cyfnod y bydd eu lleoliad arferol ar gau o ganlyniad i dywydd garw. O dan yr amgylchiadau hyn, gellir talu cyllid o dan y Cynnig i'r darparwr cofrestredig amgen sy'n darparu'r Cynnig. Byddai'r taliadau yn seiliedig ar yr oriau a drefnwyd naill ai am bedair wythnos neu am y cyfnod y bydd lleoliad arferol y plentyn ar gau, pa un bynnag fydd y byrraf o'r ddau.

243. Pan fo'n rhaid i leoliad sy'n darparu darpariaeth addysg gynnar gau oherwydd argyfwng, ni all rhieni ddefnyddio oriau gofal plant ar gyfer eu hawl i addysg gynnar. Fodd bynnag, os nad oedd rhiant yn defnyddio ei hawl gofal plant lawn, gall gynyddu ei oriau gofal plant os yw'r darparwr yn gallu darparu ar gyfer hyn, ar yr amod nad yw'n fwy na thelerau'r Cynnig.

244. Oherwydd tywydd garw, gallai'r cyfnod y bydd lleoliad ar gau ddigwydd yn ystod wythnosau nad ydynt yn ystod y tymor. Os na fydd rhiant yn gallu dod o hyd i le

mewn lleoliad amgen sy’n para 3 diwrnod neu fwy yn ystod wythnos nad yw yn ystod y tymor, yna ystyrir na fydd yr wythnos honno wedi cael ei defnyddio fel wythnos wyliau ac ni chaiff ei didynnu oddi ar ddyraniad wythnosau gwyliau’r rhiant.

245. Gellir cael copi o’r ffurflen hawlio ar gyfer tywydd garw gan Lywodraeth Cymru drwy anfon e-bost at TrafodGofalPlant@llyw.cymru

**Pandemig neu argyfwng iechyd tebyg**

*Meini Prawf Incwm:*

246. Rhaid i bob rhiant ddangos tystiolaeth eu bod yn cael “incwm o weithio” er mwyn bod yn gymwys ar gyfer y Cynnig gan mai dyma egwyddor sylfaenol y Cynnig. Dylai Awdurdodau Lleol gynnal eu trefniadau ailwirio tymhorol fel arfer.

247. Os bydd rhiant, sy’n gwneud cais am y Cynnig am y tro cyntaf neu sy’n derbyn y Cynnig ar hyn o bryd, wedi syrthio allan o gymhwystra oherwydd  pandemiga bellach yn ôl i'w amgylchiadau arferol, byddant yn gallu parhau i dderbyn y Cynnig. Efallai bod rhieni wedi derbyn arian drwy gynlluniau cymorth Llywodraeth y DU ar gyfer cyflogeion a phobl hunangyflogedig a gellir cyfrif y rhain fel incwm cymwys ar gyfer y prawf incwm gofynnol.

248. Dylai Awdurdodau Lleol ailwirio cymhwystra rhieni nad ydynt bellach yn gymwys. Os na fydd y rhiant yn bodloni’r meini prawf cymhwystra, bydd Cyfnod Esemptio Dros Dro o 8 wythnos yn dechrau.

249. Mae’r gofyniad i riant fod yn ymgymryd â rhyw fath o waith neu fod yn hunangyflogedig neu i fod wedi cofrestru ar gwrs AU neu AB perthnasol yn parhau mewn perthynas â’r Cynnig Gofal Plant. Os bydd swydd rhiant a oedd yn gymwys i gael y Cynnig yn flaenorol wedi’i dileu, yna’n dechnegol, ni fydd bellach yn bodloni’r meini prawf cymhwystra ar gyfer y Cynnig. Nid oes ganddo gontract gwaith na busnes. Yn yr un modd, os bydd cwrs AU neu AB y mae rhiant a gofrestrodd yn flaenorol yn peidio â chael ei ddarparu, yna yn dechnegol nid yw bellach yn bodloni'r meini prawf cymhwystra ar gyfer y Cynnig. Bydd Cyfnod Esemptio Dros Dro o 8 wythnos yn dechrau yn unol â’r canllawiau safonol o’r adeg y bydd ei amgylchiadau yn newid.

*Darpariaeth yn ystod y gwyliau yn ystod pandemig:*

250. Lle bydd Awdurdod Lleol yn ymestyn gwyliau’r ysgol yn sgil pandemig/argyfwng iechyd, gall rhiant ddefnyddio ei hawl gwyliau yn ystod yr wythnosau ychwanegol hynny ar yr amod bod gan y rhiant ddigon o wythnosau gwyliau i’w defnyddio. Fodd bynnag, ni ddyrennir mwy na 3 wythnos o hawl gwyliau i rieni fesul tymor ysgol.

*Darpariaeth addysg gynnar a gofal plant lle mae effaith ar weithrediad ysgolion cynradd:*

251. Mae gan Awdurdodau Lleol elfen o ddisgresiwn i barhau i ariannu oriau gofal plant yn ystod y tymor o dan amgylchiadau eithriadol lle y bwriadwyd i blentyn a fu'n manteisio ar y Cynnig ddechrau darpariaeth addysg gynnar lawn amser ond na all y plentyn fanteisio ar ei hawl i'r ddarpariaeth honno gan fod pandemig neu argyfwng iechyd tebyg yn ei atal rhag dechrau ei le llawn amser mewn addysg gynnar.

**Bydd y trefniadau canlynol yn gymwys lle mae pandemig/argyfwng iechyd wedi effeithio, i amrywiol raddau, ar y gallu i ddarparu a manteisio ar y Cynnig:**

**Senario 1: Mae ysgolion cynradd a lleoliadau gofal plant ar agor i bob plentyn eu mynychu**

- Os bydd achos byrdymor o darfu ar y gwasanaeth a ddarperir gan leoliad, neu os bydd plentyn yn absennol am gyfnod byr, byddai taliadau o dan y Cynnig yn parhau am hyd at bythefnos, yn seiliedig ar yr oriau a drefnwyd (gan gynnwys unrhyw elfen sy'n gysylltiedig â'r Grant Cymorth Ychwanegol). Er enghraifft, gall fod angen i'r lleoliad gau er mwyn glanhau yn drylwyr; gall aelodau staff neu blentyn sy'n derbyn y Cynnig fod yn hunan-ynysu.

- Os bydd achos tymor hwy o darfu ar y gwasanaeth neu os bydd plentyn sy'n derbyn y Cynnig yn absennol am gyfnod hwy, gall taliadau o dan y Cynnig barhau hyd at ddiwedd hanner tymor cyfredol yr ysgol neu am o leiaf 4 wythnos os bydd llai na 4 wythnos yn weddill o'r hanner tymor neu os cyflwynir cyfyngiadau yn ystod y gwyliau ysgol, yn seiliedig ar yr oriau a drefnwyd(gan gynnwys unrhyw elfen sy'n gysylltiedig â'r Grant Cymorth Ychwanegol). Er enghraifft, gall fod angen i leoliad gyfyngu ar ei wasanaethau neu gau am fod staff yn sâl neu am eu bod yn agored i niwed yn glinigol yn sgil pandemig/argyfwng iechyd; gall fod staff yn methu â gweithio oherwydd eu cyfrifoldebau gofal plant eu hunain yn sgil y cyfyngiadau ysgolion; gall fod darparwr yn methu â defnyddio ei adeilad arferol am resymau sy'n ymwneud â'r pandemig/argyfwng iechyd; gall fod plentyn sy'n derbyn y Cynnig yn methu â mynychu gofal plant am fod rhieni yn poeni am y pandemig/argyfwng iechyd, a gall hynny fod am fod y plentyn neu aelod o'r teulu yn agored i niwed yn glinigol yn sgil y pandemig/argyfwng iechyd.

- Byddai angen darparu tystiolaeth o'r ffactorau sy'n effeithio ar fusnes y darparwr i'r Awdurdod Lleol mewn perthynas ag achosion byrdymor a thymor hwy o darfu ar wasanaethau.

- Gellir parhau â thaliadau i ddarparwyr ar fwy nag un achlysur a gellir talu mewn perthynas â'r un plentyn fwy nag unwaith. Fodd bynnag, byddai hyn fel rheol ar achlysuron ar wahân ac am resymau gwahanol.

**Senario 2: Mae ysgolion cynradd yn gweithredu ar sail gyfyngedig ond mae lleoliadau gofal plant ar agor**

- Os bydd achos byrdymor o darfu ar y gwasanaeth neu os bydd plentyn sy'n derbyn y Cynnig yn absennol am gyfnod byr, gall taliadau o dan y Cynnig barhau am hyd at bythefnos, yn seiliedig ar yr oriau a drefnwyd (gan gynnwys unrhyw elfen sy'n gysylltiedig â'r Grant Cymorth Ychwanegol). Er enghraifft, gall fod angen i'r lleoliad gau er mwyn glanhau yn drylwyr; gall aelodau staff neu blentyn sy'n derbyn y Cynnig fod yn hunan-ynysu.

- Os bydd achos tymor hwy o darfu ar y gwasanaeth neu os bydd plentyn sy'n derbyn y Cynnig yn absennol am gyfnod hwy, gall taliadau o dan y Cynnig barhau hyd at ddiwedd hanner tymor cyfredol yr ysgol neu am o leiaf 4 wythnos os bydd llai na 4 wythnos yn weddill o'r hanner tymor neu os cyflwynir cyfyngiadau yn ystod y gwyliau ysgol, yn seiliedig ar yr oriau a drefnwyd (gan gynnwys unrhyw elfen sy'n gysylltiedig â'r Grant Cymorth Ychwanegol). Er enghraifft, gall fod angen i leoliad gyfyngu ei wasanaethau neu gau am fod staff yn sâl neu am eu bod yn agored i niwed yn glinigol yn sgil y pandemig/argyfwng iechyd; gall fod staff yn methu â gweithio oherwydd eu cyfrifoldebau gofal plant eu hunain yn sgil y cyfyngiadau ysgolion; gall fod darparwr yn methu â defnyddio ei adeilad arferol am resymau sy'n ymwneud â'r pandemig/argyfwng iechyd; gall fod plentyn sy'n derbyn y Cynnig yn methu â mynychu gofal plant am fod rhieni yn poeni am y pandemig/argyfwng iechyd neu gall y pandemig/argyfwng iechyd fod yn effeithio ar angen y teulu am ofal plant am y tro.

- Byddai angen darparu tystiolaeth o'r ffactorau sy'n effeithio ar fusnes y darparwr i'r Awdurdod Lleol mewn perthynas ag achosion byrdymor a thymor hwy o darfu ar wasanaethau.

- Gellir parhau â thaliadau i ddarparwyr ar fwy nag un achlysur a gellir talu mewn perthynas â'r un plentyn fwy nag unwaith. Fodd bynnag, byddai hyn fel rheol ar achlysuron ar wahân ac am resymau gwahanol.

- Os bydd cyfnod estynedig o gyfyngiadau a tharfu, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried darparu canllawiau ychwanegol.

**Senario 3: Mae ysgolion cynradd a lleoliadau gofal plant oll yn gweithredu ar sail gyfyngedig**

- Yn yr achos hwn, dim ond pan fydd plentyn gweithiwr hanfodol neu blentyn sy'n agored i niwed yn defnyddio lle o dan y Cynnig y byddai taliadau yn parhau o dan y Cynnig. Byddai taliadau mewn perthynas â phlant eraill yn dod i ben ar ôl pedair wythnos, sef y cyfnod hysbysu arferol yng nghontractau'r rhan fwyaf o ddarparwyr gofal plant.

- Byddem yn annog Awdurdodau Lleol i ddefnyddio’r lleoedd ar gyfer plant gweithwyr hanfodol y gellid eu hariannu drwy’r Cynnig yn llawn drwy gydol unrhyw gyfnod o gyfyngiadau. Pe byddai sefyllfa o’r fath yn codi, byddai Llywodraeth Cymru yn ystyried yr angen am gyngor pellach, mwy penodol, gan ystyried natur a graddfa’r cyfyngiadau a lledaeniad y feirws.

**Cau gwasanaethau o wirfodd**

252. Dylai Awdurdodau Lleol roi’r gorau i ddarparu cyllid o dan y Cynnig lle bydd lleoliad/darparwr yn cau neu’n rhoi’r gorau i ddarparu gwasanaeth cofrestredig o’i wirfodd, a lle na all y darparwr ddarparu tystiolaeth fod angen gwneud hynny o ganlyniad i bandemig/argyfwng iechyd.

253. Nid yw cau o ganlyniad i bryderon iechyd (mewn perthynas â staff neu blant) lle nad oes unrhyw un ymhlith y gweithlu (nac yng nghartref gwarchodwr plant) yn eu gwarchod eu hunain/yn agored i niwed yn glinigol oherwydd y pandemig/argyfwng iechyd yn rheswm cyfiawn dros barhau i dderbyn taliadau o dan y Cynnig. Byddai taliadau o dan y Cynnig yn ailddechrau pan fydd lleoliad yn ailagor ac yn dechrau darparu gwasanaeth eto, ar yr amod bod y darparwr wedi ymrwymo i ddarparu’r Cynnig a bod galw amdano gan rieni.

**Atodiad 1 - *Senarios Cario Darpariaeth Gwyliau Drosodd:***

**Roedd pen-blwydd Scarlet** yn 3 oed ar 31 Chwefror 2019.

Yn ôl polisi'r Awdurdod Lleol, gall Scarlet gael addysg gynnar ran amser o'r tymor ar ôl ei phen-blwydd yn 3 oed. Mae'n dechrau'r ysgol ar 20 Ebrill 2019, ar ddechrau tymor yr haf, ac yn dechrau cael mynediad i'r Cynnig ar yr un pryd (oherwydd bod llawer o Awdurdodau Lleol yn dechrau'r ddwy hawl ar yr un pryd).

Bydd Scarlet yn cael mynediad i'r Cynnig tan y mis Medi ar ôl ei phen-blwydd yn 4 oed, gan mai dyma pryd mae plant yn dechrau addysg amser llawn yn yr Awdurdod Lleol.

Ystyrir bod Scarlet yn gymwys ar gyfer y Cynnig dros 4 tymor (haf, hydref, gwanwyn, haf). Mae'r rhain yn disgyn ar draws 2 flynedd academaidd.

Dyrennir 3 wythnos wyliau i rieni Scarlet ar gyfer pob tymor y maent yn gymwys (cyfanswm o 3 wythnos x 4 tymor) = cyfanswm o 12 wythnos o ddarpariaeth gwyliau.

Defnyddiodd rhieni Scarlet 3 wythnos yn ystod yr haf cyntaf roedd Scarlet yn gymwys. Yna defnyddiwyd pythefnos yn ystod Nadolig 2019, pythefnos yn ystod Pasg 2020 a 5 arall yn ystod haf 2020.

Yn yr enghraifft hon ni chariwyd unrhyw ddarpariaeth gwyliau drosodd o un flwyddyn academaidd i'r llall.

**Roedd pen-blwydd Thomas** yn 3 oed ar 10 Awst 2018.

Yn ôl polisi'r ALl, gall Thomas gael addysg gynnar ran amser o'r tymor ar ôl ei ben-blwydd yn 3 oed. Dechreuodd yn yr ysgol ar 4 Medi 2018 a dechreuodd fanteisio ar y Cynnig ar yr un pryd.

Bydd Thomas yn cael mynediad i'r Cynnig tan y mis Medi ar ôl ei ben-blwydd yn 4 oed, gan mai dyma pryd mae plant yn dechrau addysg amser llawn yn yr Awdurdod Lleol.

Ystyrir bod Thomas yn gymwys ar gyfer y Cynnig dros 3 thymor (hydref, gwanwyn, haf). Mae'r rhain i gyd o fewn yr un flwyddyn academaidd.

Dyrennir 3 wythnos wyliau i rieni Thomas ar gyfer pob tymor y maent yn gymwys (3 wythnos x 3 thymor) = cyfanswm o 9 wythnos o ddarpariaeth gwyliau.

Defnyddiodd rhieni Thomas wythnos yn ystod Nadolig 2018, 2 wythnos yn ystod Pasg 2019 a 6 arall yn ystod haf 2019.

Yn yr enghraifft hon ni chariwyd unrhyw ddarpariaeth gwyliau drosodd o un flwyddyn academaidd i'r llall.

Pe na bai'r rhiant wedi defnyddio'r ddarpariaeth lawn o 9 wythnos o wyliau erbyn diwedd gwyliau haf 2019, ni fyddai'r rhieni wedi gallu eu cario drosodd i'r tymor canlynol gan nad oedd Thomas yn gymwys ar gyfer y Cynnig pan ddechreuodd addysg amser llawn y tymor canlynol.

**Roedd pen-blwydd Rebecca** yn 3 ar 23 Medi 2018.

Yn ôl polisi'r ALl, gall Rebecca gael addysg gynnar ran-amser o'r tymor ar ôl ei phen-blwydd yn 3 oed· Dechreuodd gael mynediad at ddarpariaeth feithrin y Cyfnod Sylfaen ar 7 Ionawr 2019 a dechreuodd gael mynediad i'r Cynnig ar yr un pryd.

Bydd Rebecca yn cael mynediad i'r Cynnig tan y mis Medi ar ôl ei phen-blwydd yn 4 oed, gan mai dyma pryd mae plant yn dechrau addysg amser llawn yn yr Awdurdod Lleol.

Ystyrir bod Rebecca yn gymwys i gael y Cynnig am 5 tymor (gwanwyn, haf, hydref, gwanwyn, haf) – **y cyfnod hwyaf y gall plentyn fod yn gymwys i gael y Cynnig.** Mae'r rhain yn disgyn ar draws 2 flynedd academaidd.

Dyrennir 3 wythnos o ddarpariaeth gwyliau i rieni Rebecca ar gyfer pob tymor y maent yn gymwys (3 wythnos x 5 tymor) = cyfanswm o 15 wythnos o ddarpariaeth gwyliau.

Defnyddiodd rhieni Rebecca bythefnos yn ystod Pasg 2019, 3 wythnos yn ystod haf 2019, 2 wythnos yn ystod Nadolig 2019, 2 wythnos yn ystod Pasg 2020 a 6 wythnos yn ystod haf 2020.

Pe na bai'r rhiant wedi defnyddio'r ddarpariaeth lawn o 15 wythnos o ddarpariaeth gwyliau erbyn diwedd gwyliau haf 2020, ni fyddai'r rhiant wedi gallu cario’r gwyliau drosodd i'r tymor canlynol gan nad oedd yn gymwys ar gyfer y Cynnig pan ddechreuodd addysg amser llawn y tymor canlynol.